



**CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL CAERFFILI**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2005 - 2008

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2005-2008

Rhagair

Dyma'r trydydd Cynllun Iaith Gymraeg a gynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dan ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cymeradwywyd ar 22/11/05 gan y cyngor wedi cyfnod ymgynghori trylwyr, a'i nod, fel ag y bu gyda'r cynlluniau blaenorol, yw darparu gwasanaeth Cymraeg o'r radd flaenaf sy'n cwrdd ag anghenion trigolion bwrdeistref sirol Caerffili, p'un ai ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n un o'r oedolion a phobl ifainc niferus hynny sy'n dysgu'r iaith. Mae arferion gwaith yn y bwrdeistref Sirol yn dal i esblygu er mwyn sicrhau y perchir egwyddor cydraddoldeb iaith ym mhob agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth.

Mae Cydraddoldeb Iaith yn dod yn fwyfwy pwysig ar lefelau Cymreig, DU ac Ewropeaidd. Cadarnhaodd y llywodraeth Brydeinig y Siarter Ewropeaidd ar Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol ar Fawrth 27ain 2001. Yng Nghymru, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod allan ei ymrwymiad i'r Iaith Gymraeg yn 'Iaith Pawb' ac yn y Safon Gydraddoldeb ar gyfer Cymru, mae'r Gymraeg yn un o'r pedwar mater Cydraddoldeb y mae'n rhaid i awdurdod eu hystyried wrth ymgymryd â'u gwaith beunyddiol. Mae cytundeb Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys ymrwymiad i gyrraedd o leiaf lefel 2 y Safon erbyn 2007, sy'n gwneud y cynllun dywigiedig hwn yn rhan hanfodol o gyflawni'r nod hwnnw.

Ym mis Awst 2004, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor Bwrdeistref Sirol Strategaeth Sgiliau Ieithyddol sy'n cwmpasu'r Iaith Gymraeg, ieithoedd lleiafrifol eraill a Iaith Arwyddion Prydain, sy'n cysylltu materion cydraddoldeb iaith o dri darn gwahanol o ddeddfwriaeth (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1996 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000). Mae Strategaeth Gymunedol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo diwylliant cyfle i bawb, gan sicrhau bod materion cydraddoldeb (gan gynnwys iaith) yn rhan integrol o'i pedair thema.

Diweddarodd yr ail Gynllun Iaith Gymraeg y gwreiddiol mewn nifer o ffyrdd, gan adeiladu ar y llwyddiant a gyflawnwyd yn ystod y tair blynedd gyntaf a chyflwyno adrannau newydd er mwyn adlewyrchu datblygiadau mewn llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a meysydd megis TG. Mae'r trydydd cynllun hwn yn parhau'r tueddiad hynny trwy amlinellu sut y bydd materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu prif-ffrydio i mewn i'r datblygiadau a'r blaengareddau newydd oddi mewn i'r Cyngor, ledled Cymru, y DU a thu hwnt.

Gobeithiwn y gwnewch chi gytuno fod y cynllun newydd, a fydd yn dal mewn grym tan Fawrth 2008, yn adeiladu ymhellach eto ar y gwaith yr ydym wedi ymgymryd ag ef ers 1997 a'i fod yn dangos ein hymrwymiad parhaus Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, i drigolion, aelodau etholedig, aelodau staff ac ymwelwyr â'r bwrdeistref sirol.

Malgwyn Davies
Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Harry Andrews
Arweinydd y Cyngor

CYNNWYS

Datganiad

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Gwybodaeth Gyffredinol
- 1.2 Gwybodaeth y Cyfrifiad
- 1.3 Nodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- 1.4 Y Broses Ddemocrataidd
- 1.5 Addysg Gymraeg
- 1.6 Iaith a Chydraddoldeb

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

- 2.1 Polisiâu a Blaengareddau
- 2.2 Cynlluniau Gwella Gwasanaeth
- 2.3 Delio gyda Sefydliadau Eraill
 - *Caffaeliad*
 - *Partneriaethau*
 - *Nawdd a Grantiau*
 - *Swyddogaethau Rheoleiddio*
- 2.4 Tîm Gwasanaethau Iaith
- 2.5 Y Strategaeth Gymunedol
- 2.6 E-lywodraeth
- 2.7 Rhyddid Gwybodaeth
- 2.8 Safonau Ansawdd

3. DELIO GYDA SIARADWYR A DYSGWYR Y GYMRAEG

- 3.1 Cronfa Ddata Siaradwyr a Dysgwyr y Gymraeg
- 3.2 Gofal Cwsmeriaid
- 3.3 Cyfathrebu Ysgrifenedig
- 3.4 Cyfathrebu seiliedig ar y We neu gyfathrebu electronig arall
- 3.5 Cyfathrebiadau dros y Ffôn
- 3.6 Wyneb yn wyneb â'r Cyhoedd
- 3.7 Delio â staff sy'n siarad Cymraeg

4. WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

- 4.1 Gwybodaeth Gyffredinol
- 4.2 Polisi Golygyddol – Canllaw i'r hyn sydd yn rhaid iddo fod yn ddwyieithog
- 4.3 Arwyddion
- 4.4 Marchnata, Hysbysebu a Chyhoedduswydd
- 4.5 Enwau Lleoedd yn y Bwrdeistref Sirol
- 4.6 Enwi Strydoedd

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

- 5.1 Recriwtio a Dethol
- 5.2 Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle
- 5.3 Hyfforddiant Galwedigaethol
- 5.4 Trefniadau Gweinyddol
- 5.5 Monitro
- 5.6 Cwynion
- 5.7 Boddhad

6. CYHOEDDUSRWYDD

- 6.1 Hyrwyddo'r Cynllun
- 6.2 Hyrwyddo Gwsanaethau Dwyieithog

7. TARGEDAU AC AMSERLEN

- 7.1 Gwybodaeth am Dargedau ac Amserlen
- 7.2 Targedau Penodol
- 7.3 Datblygiad a Chynnydd Cyffredinol

ATODIADAU

- A** Polisi Golygyddol
- B** Polisiâu Allweddol y Cyngor
- C** Swyddogaethau Rheoleiddio

Datganiad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi mabwysiadu ac mae'n gweithredu'r egwyddor wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

- Bydd yn sicrhau, wrth weithredu unrhyw bolisiau a gweithredu unrhyw wasanaethau, y cynhwysir nodau'r Cynllun Iaith Gymraeg a chynlluniau gweithredu cenedlaethol megis Iaith Pawb ar bob lefel.
- Bydd yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd yng Nghymru i ddewis pa iaith i'w defnyddio yn ei ymwneud â'r Cyngor.
- Mae'n cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu iaith ddewisedig.
- Mae'n cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnydd ei iaith o ddewis yn fater o arfer da a gofal cwsmeriaid da, nid consesiwn.
- Mae'r cynllun hwn yn gosod allan sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor hynny wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru oddi mewn i gyfyngiadau ariannol a dynol y Cyngor, gan gymryd i ystyriaeth natur ieithyddol ddatblygiadol y bwrdeistref sirol.
- Mae'r cynllun hwn yn cyfeirio'n benodol i'r iaith Gymraeg; delir â'r Gymraeg a materion iaith eraill hefyd yn Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor; delir hefyd â ieithydd cymunedol a Iaith Arwyddion Prydain yng Nghynllun Cydraddoldeb Hiliol y cyngor bwrdeistref sirol a pholisiau Cydraddoldeb eraill.

Derbyniodd y cynllun hwn gymeradwyaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 16(1)
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 16/12/05



1. RHAGARWEINIAD

1.1 Gwybodaeth Gyffredinol

1.1.1 Daeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i fodolaeth ar Ebrill 1, 1996. Mae'n gyfrifol am yr holl wasanaethau hynny a ymgwymerwyd gan gyn-gynghorau Bwrdeistref Islwyn a Dosbarth Cwm Rhymni, ynghyd â'r rhai hynny a ddarparwyd gan gyn-gynghorau Sir Gwent a Morgannwg Ganol oddi mewn i'w ffiniau.

1.1.2 Mae wedi ei leoli yng nghanol ardal Cymoedd De Cymru ac mae'n cwmpasu tua 28,000 hectar ar draws gyn-siroedd Gwent a Morgannwg Ganol. Mae'n ymestyn dros 40km rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn y de a Bannau Brycheiniog yn y gogledd. Mae cynnwys cymoedd Rhymni, Sirhywi ac Ebwy i gyd neu rannau ohonynt.

1.1.3 Yn ddaearyddol, nid oes gan yr awdurdod unrhyw fan canol go iawn ac mae wedi'i enwi ar ôl yr aneddiad mwyaf yn yr ardal, tref hanesyddol Caerffili.

1.1.4 Y cyngor yw'r pedwerydd Awdurdod o ran maint yng Nghymru gyda 73 o Aelodau Etholedig sy'n cwmpasu 33 ward. Mae'n cyflogi tua 9,000 o staff, sy'n ei wneud y cyflogwr mwyaf yn yr ardal, sy'n cyflwyno ystod eang o wasanaethau amrywiol i'r 169,519 o bobl sy'n byw yn y bwrdeistref sirol (Ffigurau Cyfrifiad 2001).

1.1.5 Darperir gwasanaethau'r cyngor o nifer o brif ganolfannau sydd wedi'u lleoli fel a ganlyn:

- Tredomen,
- Parc Busnes Tredomen, Ystrad Mynach
- Ystrad Fawr, Ystrad Mynach
- Swyddfeydd Addysg, Ystrad Mynach
- Pontllan-fraith
- Maes-y-coed, Pontllan-fraith
- Maesglas, Gelligaer
- Hawtin Park, Gelli-haf

Mae hefyd llawer o swyddfeydd ardal, is-swyddfeydd, stordai, swyddfeydd arian a chanolfannau wedi'u gwasgaru ledled y bwrdeistref sirol, sy'n cynnal yr amrywiol wasanaethau.

1.1.6 Mae pedair cyfadran oddi mewn i'r cyngor, pob un â swyddogaethau a gwasanaethau penodol y maent yn eu cyflwyno:-

ADRAN Y PRIF WEITHREDWR <ul style="list-style-type: none">• Cyllid Corfforaethol• Personél• Caffaeliad• Gwasanaethau Cyfreithiol• Gwasanaethau TG• Archwiliad Mewnol• Arlwyo a Glanhau• Polisi a Gwasanaethau Canolog• Datblygu Economaidd a Thwristiaeth• Rheoli Perfformiad• Swyddog Monitro	CYFADRAN YR AMGYLCHEDD <ul style="list-style-type: none">• Adran Beirianeg• Adran Gynllunio• Gwasanaethau Eiddo• Adrannau Cynnal• Gwarchod y Cyhoedd• Gwasanaethau Cyhoeddus• Tai• Gwasanaethau Adeiladu
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL <ul style="list-style-type: none">• Adnoddau a Pherfformiad• Gwasanaethau Plant• Gwasanaethau Oedolion	CYFADRAN ADDYSG A HAMDDEN <ul style="list-style-type: none">• Gwasanaethau Cynhwysiant• Strategaeth a Chynllunio• Addysg Gydol Oes a Hamdden• Effeithiolrwydd Ysgolion

1.1.7 Mae 5 Pwyllgor Craffu sy'n goruchwylio gwaith y Cabinet a'r Cyngor cyfan, ac maent wedi'u cysylltu â phedair thema y Strategaeth Gymunedol (gweler **Adran 2.5**) ac â materion sy'n trawsdorri. Gall Pwyllgorau Craffu "alw" rhai penderfyniad a wnaed gan y Cabinet a swyddogion "i mewn" er mwyn ystyried a ydy'r penderfyniad yn un priodol ai peidio. Y 5 Pwyllgor Craffu yw:

- Addysg Gydol Oes
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Byw
- Adfywio
- Yr Amgylchedd Byw
- Polisi ac Adnoddau

1.1.8 Mae'r Awdurdod wedi penodi Pwyllgorau Rheoleiddio yn ogystal er mwyn cynorthwyo sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau. Dyrannwyd swyddogaethau a phwerau neilltuol i bob Pwyllgor Rheoleiddio er mwyn ategu'r modd y mae'r Cyngor yn gweithio. Y Pwyllgorau Rheoleiddio yw:-

- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor Trwyddedu ac Apeliadau
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Hawliau Tramwy

1.1.9 O ran Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae 9 Ysgol Gynradd Gymraeg ar hyn o bryd ac 1 Ysgol Gyfun Gymraeg yn y bwrdeistref sirol. Gellir cael gwybodaeth bellach am ysgolion o'r **Llyfryn Dechrau Ysgol** sydd ar gael o'r Gyfadran Addysg. (Gweler hefyd **Adran 1.5 – Addysg Gymraeg**).

1.1.10 Mae'r adrannau yn y cynllun sy'n ymwneud â Recriwtio, Staffio, Hyfforddiant a Chyflwyno Gwasanaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'r **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol** a gymeradwywyd ym mis Awst 2004.

1.1.11 Yn ystod 2005, fel rhan o waith Cydraddoldeb cyffredinol y Cyngor, ymgymerir ag arolwg trylwyr o staff o ran eu galluoedd ieithyddol, gan gynnwys y Gymraeg, yn unol â'r ymrwymiad yn y **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol**.

1.1.12 Gellir cael gwybodaeth bellach am y Cynllun Iaith hwn oddi wrth y canlynol:

Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)
Rhif Ffôn: 01443 864353

Cydlynnydd Hyfforddiant Iaith Gymraeg
Rhif Ffôn: 01443 864404

Cydlynnydd Cyfieithu Iaith Gymraeg
Rhif Ffôn: 01443 864377

Cyfieithydd Cymunedau'n Gyntaf
Rhif Ffôn: 01443 864344

Uned Bolisi a Chymorth Corfforaethol
Adran y Prif Weithredwr
Heol Nelson
Tredomen
CF82 7WF

Ffacs: 01443 864307

cymraeg@caerphilly.gov.uk

Neu mi allwch lawrlwytho fersiwn .pdf testun-yn-unig o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili www.caerphilly.gov.uk, lle rhestrir gwybodaeth gyffredinol am waith y Cyngor o ran yr iaith Gymraeg dan adran Gydraddoldeb. Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd a ffurfweddau eraill ar gais.

1.2 Gwybodaeth y Cyfrifiad

1.2.1 Yn ôl cyfrifiad 2001, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwasanaethu poblogaeth o thua 169,519 ac mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg fel a ganlyn:-

<u>Canran y boblogaeth a niferoedd sy'n:-</u>	<u>%</u>	<u>Nifer</u>
Deall Cymraeg llafar yn unig	2.8%	4,747
Siarad ond ddim yn darllen/ysgrifennu'r Gymraeg	1.7%	2,882
Siarad a darllen, ond ddim yn ysgrifennu'r Gymraeg	0.7%	1,187
Siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg	11.2%	18,986
Cyfanswm â gwybodaeth o'r Gymraeg i unrhyw raddfa	16.4 %	27,802

(Map o'r bwrdeistref sirol - i'w osod)

1.2.2 Pan ddadansoddir niferoedd y boblogaeth ar sail ward, mae ffigurau'r Cyfrifiad (ar gyfer y rhai dros dair blwydd oed sy'n siarad Cymraeg), yn dangos y wybodaeth ganlynol:-

Enw'r Ward	1991 – Nifer yn Siarad Cymraeg	2001 – Nifer yn Siarad Cymraeg	+ / - Newid	% Newid
Aberbargod	200	323	+ 123	+ 62 %
Abercarn	62	422	+ 360	+ 581 %
Argoed	93	299	+ 206	+ 222 %
Bargod	461	589	+ 128	+ 28 %
Bedwas	668	1146	+ 478	+ 72 %
Catwg Sant	558	893	+ 335	+ 60 %
Cefn Fforest	196	383	+ 187	+ 95 %
Coed Duon	344	854	+ 510	+ 148 %
Cross Keys	93	283	+ 190	+ 204 %
Crymlyn	160	565	+ 405	+ 253 %
Cwm Darran	184	272	+ 88	+ 48 %
Cwmaber	725	1013	+ 288	+ 40 %
Gilfach	133	196	+ 63	+ 47 %
Hengoed	233	526	+ 293	+ 126 %
Iago Sant	612	632	+ 20	+ 3 %
Llanbradach	309	510	+ 201	+ 65 %
Maes-y-cwmwr	177	195	+ 18	+ 10 %
Martin Sant	478	896	+ 418	+ 87 %
Morgan Jones	504	875	+ 371	+ 74 %
Moriah	242	538	+ 296	+ 122 %
Nelson	356	490	+ 134	+ 38 %
Pengam	248	423	+ 175	+ 71 %
Penmaen	98	440	+ 342	+ 349 %
Pen-yr-heol	852	1447	+ 595	+ 70 %
Pontllan-fraith	242	715	+ 473	+195 %
Pontlotyn	142	121	- 21	-15 %
Rhisga (Dwyrain)	236	764	+ 528	+ 224 %
Rhisga (Gorllewin)	156	470	+ 314	+ 201 %
Trecelyn	116	518	+ 402	+ 347 %
Tredegar Newydd	165	336	+ 171	+ 104 %
Twyn Carno	238	248	+ 10	+ 4 %
Ynys-ddu	153	403	+ 250	+ 163 %
Ystrad Mynach	299	444	+ 145	+ 48 %

1.2.3 Lle bo wardiau wedi'u cyfuno ers 1991, mae ffigurau'r hen wardiau wedi eu hadio at ei gilydd ar gyfer yr ardaloedd hynny er mwyn darparu cymhariaeth gywirach.

1.2.4 Dim ond mewn un o'r 33 ward bresennol mae gostyngiad wedi bod – Mae gan Bontlotyn 21 yn llai o siaradwyr y Gymraeg na'i hardal gyfatebol ym 1991. Yn y lleill i gyd, mae cynnydd wedi bod rhwng 3% yn Iago Sant (y cynnydd lleiaf) a 581% yn Abercarn, (y cynnydd uchaf a gofnodwyd).

1.3 Nodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- 1.3.1 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswydd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, annog a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y bwrdeistref sirol; gellir cyflawni hyn yn uniongyrchol trwy weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn llwyddiannus ac yn anuniongyrchol, trwy gefnogi achlysuron megis Eisteddfodau'r Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Eisteddfod Ryngwladol.
- 1.3.2 Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru wrth gyflawni'r egwyddorion a osodir allan yn ei Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog "Iaith Pawb" er enghraifft trwy weithredu'r **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol** y Cyngor.
- 1.3.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau fod gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg ar draws y cyngor bwrdeistref sirol yn cysylltu â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill o ran iaith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:-
- Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol;
 - Adran 120 a Chymal 32 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol;
 - Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad;
 - Safon Gydraddoldeb Llywodraeth Leol.
- 1.3.4 Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant er mwyn galluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol (gweler **Adran 4.2**) er mwyn i amcanion y Cyngor parthed yr Iaith Gymraeg allu cael eu cyflawni o fewn graddfa amser rhesymol.
- 1.3.5 Bydd y Cyngor yn cynorthwyo a chefnogi cyrff eraill megis Sefydliadau Gwirfoddol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eu defnydd o'r Iaith Gymraeg (mae ymrwymiad i'r perwyl yma yn ffurfio rhan o'r Cytundeb y Cyngor gyda'r Sector Gwirfoddol, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Heddlu).
- 1.3.6 Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith Sir Caerffili i annog busnesau i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.
- 1.3.7 Bydd y Cyngor yn rhoi cymorth gweithredol i Fenter Iaith Sir Caerffili, Mudiad Ysgolion Meithrin, Yr Urdd, C.Y.D. (Cymdeithas y Dysgwyr), Grŵp Deddf, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Cynulliad Cenedlaethol ac unrhyw barti perthnasol arall wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y bwrdeistref sirol, ar draws rhanbarth De-Ddwyrain Cymru ac yn genedlaethol oddi mewn i Gymru ac ar draws y DU.
- 1.3.8 Cyflawnir y nodau yma dros amser gan y 26 o feysydd gwasanaeth y Cyngor, gyda chyngor a chymorth ar gael oddi wrth y staff, ac adnoddau ariannol ac ar gael yn benodol yn y tîm Cymraeg oddi mewn i'r Uned Bolisi a Chymorth Corfforaethol.

1.4 Y Broses Ddemocrataidd

- 1.4.1 Mae gan y cyngor gyfleusterau ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn siambr y Cyngor yn Nhredomen, ond nid mewn unrhyw leoliad arall ar hyn o bryd. Darperir offer symudol mewn lleoliadau eraill. Cynigir cyfieithu ar y pryd i'r cyhoedd yn unol â chyfarwyddyd **Trefnu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Cynhwysol**, sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ar y rhwydwaith mewnol neu fel copi caled ar gais.

- 1.4.2 Ar hyn o bryd, ni pharatoir Agendâu, Adroddiadau, Cofnodion a dogfennau eraill a gyflwynir i'r Cyngor, Cabinet, Pwyllgorau Craffu, Is-Bwyllgorau a Phanelau, yn ddwyieithog, er bydd y wybodaeth safonol ar y dogfennau yma yn ddwyieithog. Darperir cyfieithiad ar gais fodd bynnag lle bo materion yn ymwneud yn benodol â materion Cymraeg e.e. Addysg Gymraeg, Menter Iaith a'r Urdd (Gweler **Polisi Golygyddol** am wybodaeth bellach).
- 1.4.3 Mae ymrwymiad y cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ffurfio rhan o **Gyfansoddiad y Cyngor**, sydd ar gael ar-lein neu fel copi caled ar gais.

1.5 Addysg Gymraeg

- 1.5.1 Mae darpariaeth Addysg Gymraeg yn rhan o bolisi Addysg y Cyngor at ei gilydd ac mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y rôl wrth ddatblygu a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ac wrth roi sgiliau dwyieithog i blant.
- 1.5.2 Fel Awdurdod Addysg Lleol, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb am ddarparu ysgolion a sicrhau nifer digonol o leoedd ysgol a, thrwy reoli'r cwricwlwm a chymeriad ysgolion, am gyfeiriad strategol Addysg Gymraeg ac Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 1.5.3 Fel arall, cyflwynir addysg i raddau helaeth trwy Gyrrff Llywodraethol Ysgolion, sy'n penderfynu eu trefniadau a'r defnydd o adnoddau o ran staffio, adnoddau a gweinyddiad, adnoddau a gweinyddiad. Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau cynnal i ysgolion ac yn cyflwyno rhai gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd.
- 1.5.4 Bydd y cyngor yn monitro'r galw am Addysg Gymraeg fel rhan o'i orchwyl cyffredinol a bydd yn cynllunio ar gyfer gwneud darpariaeth briodol.
- 1.5.5 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi **Cynllun Addysg Gymraeg** ar wahân, sy'n delio'n benodol â darpariaeth Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Addysg yw gweithredu a monitro'r cynllun hwn; mae copïau ar gael o'r Gyfadran honno ar gais.

1.6 Iaith a Chydraddoldeb

- 1.6.1 Mae iaith wedi dod yn rhan o agenda ehangach Cydraddoldeb ac mae cynnwys iaith oddi mewn i fframwaith Cydraddoldeb yn cydnabod fod anffafrio oherwydd iaith yr un mor annerbyniol ag anffafrio oherwydd cenedl neu liw croen person.
- 1.6.2 Mae datganiad Cydraddoldeb y cyngor fel a ganlyn: -
"Bydd y cyngor yn gweithio'n weithredol yn erbyn anffafriaeth, a cheisio creu mynediad cyfartal i'w wasanaethau ar gyfer pawb, waeth bynnag eu lliw, tarddiad ethnig, cenedl, oed, statws priodasol, cyfeiriadaeth rywion, anabled, crefydd, iaith neu genedlaetholdeb".
- 1.6.3 Mae datganiad cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cwmpasu ystod eang o faterion sy'n deillio o ddyletswydd cyfreithiol a moesol, ill dau, i ddarparu pob gwasanaeth yn deg a heb anffafriaeth i'r holl drigolion ac i bawb sy'n gweithio yn, neu'n ymweld â'r fwrdeistref sirol.
- 1.6.4 Mae'r iaith Gymraeg yn un o bedwar llinyn y Safon Gydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru ac mae cytundeb polisi'r Cyngor gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys ymrwymiad i gyrraedd lefel 2 y Safon o leiaf erbyn 2007.

- 1.6.5 Ym mis Mai 2005, cyhoeddodd Fwrdd yr Iaith Gymraeg daflen ar gyfer cyrff cyhoeddus dan yr enw "Deg Her i Gymru – Yr Iaith Gymraeg fel Rhan o'r Agenda Cyfleoedd Cyfartal" fel rhan o broses barhaus ar gyfer sicrhau y prif-ffrydir yr iaith Gymraeg ynghyd â materion cydraddoldeb eraill i mewn i waith cyrff cyhoeddus.
- 1.6.6 Ar lefel ryngwladol, cadarnhaodd y Llywodraeth Brydeinig Siarter Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol Ewrop ar Fawrth 27ain 2001, gan sicrhau lefel bellach o gydnabyddiaeth i'r Gymraeg fel iaith a siaredir yn y DU.
- 1.6.7 Cwmpasir dewis o iaith, yn enwedig mewn perthynas â phlant gan amrywiol gonfensiynau Hawliau Dynol y CU . Mae gan bob awdurdod cyhoeddus ymrwymiad cadarnhaol i sicrhau fod hawliau dynol wrth graidd eu gwaith beunyddiol. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn dulliau sy'n atgyfnerthu Deddf Hawliau Dynol 1998 mewn modd cadarnhaol.

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

2.1 Polisiâu a Blaengareddau

- 2.1.1 Mae'r cyngor yn datblygu polisiâu newydd a diweddarau rhai presennol yn gyson ar ystod amrywiaethol o faterion gyda'r nod o wella cyflwyniad gwasanaeth i'w holl drigolion. Er mwyn sicrhau bod pob polisi a blaengarwch newydd neu ddywigiedig yn gyson â'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn, ac nad ydynt yn ei danseilio, bydd unrhyw asesiad effaith cydraddoldeb yr ymgymerir ag ef yn cymryd y Cynllun Iaith Gymraeg a gofynion siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg i ystyriaeth.
- 2.1.2 Gwneir staff sy'n gweithio ar ddatblygu polisi a blaengareddau ynghyd ag unrhyw resymoli ar gynlluniau yn ymwybodol o'r gofynion hyn a rhoddir cyfarwyddyd a chyngor priodol iddynt.
- 2.1.3 Lle bo unrhyw bolisi, cynllun neu flaengarwch newydd neu ddywigiedig yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos ei ymrwymiad at weithrediad egwyddor cydraddoldeb, bydd yn gwneud hynny.
- 2.1.4 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg os ydy unrhyw bolisiau neu flaengareddau yn effeithio ar y cynllun; ni newidir y cynllun heb ganiatâd y Bwrdd.
- 2.1.5 Mae uwch reolwyr y Cyngor yn ymgymryd â rhaglen ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen datblygu rheolaeth orfodol. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth gyffredinol o faterion sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg a sut y maent yn effeithio ar awdurdodau cyhoeddus. Hefyd, fel rhan o'r hyfforddiant hwn, mae modwl penodol ar ymgymryd ag asesiadau effaith cydraddoldeb.
- 2.1.6 Monitrir effaith polisiâu a blaengareddau newydd ar y Cynllun Iaith Gymraeg (ac i'r gwrthwyneb), ynghyd â'r effaith ar faterion Cydraddoldeb eraill, fel rhan o'r asesiad effaith cydraddoldeb cyffredinol, sy'n digwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chynnydd o ran y Safon Gydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru.
- 2.1.7 Mae **Rhestr Wirio Asesu Effaith Cydraddoldeb** wedi'i chynhyrchu ynghyd â ffurflen i reolwyr i'w chwblhau a'i dychwelyd i'r Uned Bolisi pan fo polisi wedi'i asesu. Gweler **Atodiad B – Polisiâu Allweddol y Cyngor** am restr gyfredol o bolisiau a'r drefn arfaethedig ar gyfer delio â hwy.

2.2 Cynlluniau Gwella Gwasanaeth

- 2.2.1 Mae'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol wedi bod yn gweithio i weithredu polisiau cydraddoldeb y Cyngor. Fel rhan o'r broses hon, mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb wedi'i gynhyrchu sy'n canfod rhai gweithrediadau sy'n hanfodol ar gyfer gyrru agenda gydraddoldeb ymlaen oddi mewn i'r Cyngor ynghyd â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 2.2.2 Un o brif nodau'r Cynllun Gweithredu yw gwella mynediad i wasanaethau a helpu hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ar draws yr awdurdod. Mae Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol yn ystyried mai rhan bwysig o'r broses fydd gallu monitro pa mor dda mae gweithrediadau wedi'u cytuno, wedi eu mabwysiadu a'u gyrru ymlaen gan yr holl wasanaethau.
- 2.2.3 Mae hi felly'n bwysig i'r gwaith hwn gael ei weld fel rhan sylfaenol o ddarpariaeth wasanaeth ac o ganlyniad, dylai fod yn rhan o'r broses rheoli perfformiad er mwyn galluogi gosod targedau a gwerthuso cynnydd ym mhob rhan o'r awdurdod.
- 2.2.4 Bydd cyfarwyddyd y Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer rheolwyr gwasanaethau yn cynnwys mesurau penodol ar gyfer monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, a fydd yn cwmpasu'r fath faterion â:-
- recriwtio a staffio;
 - trefnu a chyflwyno gwasanaethau;
 - trefniadau a wneir i gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg a'u heffeithiolrwydd;
 - pa mor dda mae'r sefydliad yn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl eraill;
 - delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg;
 - pob agwedd o ddelwedd gyhoeddus y Cyngor;
 - cyfarchiadau dros y ffôn a negeseuon peiriannau ateb ffôn;
 - gweithredu mesurau staffio a hyfforddiant a gynhwysir yn y cynllun;
 - darpariaeth a gweinyddiad gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr y Cyngor;
 - cyflawniad wrth weithredu mesurau yn erbyn yr amserlen yn y cynllun;
 - cwynion sy'n ymwneud â Gwasanaeth Cymraeg y Cyngor;
 - cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau'r Cyngor a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg;
- 2.2.5 Mae'r cyngor yn croesawu a bydd yn cofnodi awgrymiadau ynglŷn â sut i wella'r gwasanaeth; dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig gan gyfeirio awgrymiadau i'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg). (Gweler **1.1.12** am fanylion cysylltu.).

2.3 Delio â Sefydliadau Eraill

Caffaeliad

- 2.3.1 Lle na ddarperir gwasanaethau gan y Cyngor yn uniongyrchol, ond gan asiantaethau neu gyrff dan gytundeb i'r Cyngor, cyflwynir y gwasanaethau yma yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- 2.3.2 Wrth gynnig unrhyw gontract newydd am gyflwyno gwasanaethau, bydd y Cyfarwyddwr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau fod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y cynllun.

- 2.3.3 Cyflawnir hyn drwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y cynllun mewn dogfennau tendro, contractau, cytundebau ac amodau a, lle bo hynny'n briodol, gofyn am ddatganiadau am sut y bydd y gwasanaethau hynny yn cael eu cyflwyno.
- 2.3.4 Mae manylion pellach ar gael yn nogfen bolisi'r Cyngor **Polisi Cydraddoldeb mewn Caffaeliad**, sydd ar gael mewn ffurf electronig neu fel copi caled o procurement@caerphilly.gov.uk.

Partneriaethau

- 2.3.5 Mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau eraill mewn ffyrdd gwahanol ac ar nifer o lefelau, yn enwedig wrth ddatblygu a gweithredu'r **Strategaeth Gymunedol** (gweler **Adran 2.5**).
- 2.3.6 Lle bo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau y gwneir y darpariaethau cyhoeddus yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun.
- 2.3.7 Lle bo'r Cyngor mewn cydbartneriaeth gydag ond un corff arall, bydd y gydbartneriaeth hynny yn cytuno mabwysiadu un Cynllun Iaith Gymraeg fel y cynllun swyddogol ar gyfer y bartneriaeth, neu os nad oes gan y sefydliad arall unrhyw Gynllun, mabwysiadir un y Cyngor.
- 2.3.8 Lle bo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth dan arweiniad corff arall, gwneir mewnbwn y Cyngor i'r bartneriaeth yn unol â'r cynllun a fabwysiadwyd gan y bartneriaeth honno. Os nad oes Cynllun wedi'i fabwysiadu, bydd y Cyngor yn annog i'r partneriaid eraill fabwysiadu ei gynllun ei hun ar gyfer y bartneriaeth hynny, neu gynllun sefydliad arall oddi mewn i'r bartneriaeth er mwyn sicrhau y diwellir gofynion yr iaith Gymraeg.
- 2.3.9 Lle bo'r Cyngor yn gweithio fel rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw i fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg ei hun neu gytuno cydymffurfio â chynllun un o aelodau'r consortiw. Bydd y cyngor hefyd yn annog partneriaid eraill i gydymffurfio yn yr un modd.
- 2.3.10 Pan fo'r Cyngor yn ffurfio neu ymuno â phartneriaeth, bydd yn gofyn i'r partneriaid dichonol am gopi o'u cynllun iaith, polisi iaith neu ddisgrifiad o sut y maent yn bwriadu gweithio yn ddwyieithog.
- 2.3.11 Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn goruchwyllo, annog, galluogi, hwyluso neu gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy roi cyhoeddusrwydd i'w gynllun a chynnig cyngor a chymorth i'r sefydliadau partner.

Nawdd a Grantiau

- 2.3.12 Bydd y cyngor yn annog sefydliadau, cyrrff gwirfoddol neu unigolion sy'n derbyn nawdd ariannol, grantiau neu ffioedd tanysgrifiadau oddi wrth y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.
- 2.3.13 Yn yr un modd, lle bo'r Cyngor yn gwneud cynigion i sefydliadau eraill, bydd yn cynnwys gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'r cynnig hynny.

Swyddogaethau Rheoleiddio

- 2.3.14 Bydd y cyngor, wrth arfer swyddogaeth reoleiddio megis rhoi trwyddedau a chaniatâd, yn annog unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn i ganlyn arfer dwyieithog a defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau.
- 2.3.15 Bydd yn gwneud hyn trwy ddatgan y farn hon mewn dogfennau ceisio perthnasol a gyhoeddwyd at eu defnydd a bydd yn dangos fod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg.
- 2.3.16 Dangosir rhestr lawn o swyddogaethau rheoleiddio'r Cyngor yn **Atodiad C**.

2.4 Y Tîm Gwasanaethau Iaith

- 2.4.1 Yn unol ag Adran 7 y **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol** corfforaethol, mae Tîm Gwasanaethau Iaith, ledled yr awdurdod yn cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion cyflwyno gwasanaeth a gwmpasir gan y cynlluniau Cydraddoldeb sydd yn eu lle.
- 2.4.2 Trwy gael y fath dîm yn ei le, bydd aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno trafod yn Gymraeg yn cael gwell ymateb gwasanaeth-penodol yn eu hiaith ddewisedig (gweler **Adran 3** am fanylion pellach).
- 2.4.3 Rhoddir ond y fath o waith i aelodau tîm sy'n ymwneud â'u maes gwasanaeth ac nid gwaith o gyfadranau eraill. Mae'r dyletswyddau yma yn cynnwys mân ddyletswyddau cyfieithu, ymholiadau ffôn ac unrhyw gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb.
- 2.4.4 Buasai'n rhaid cynnal safonau ansawdd a buasent wedi'u cysylltu â'r math o waith a ddisgwyliwyd oddi wrth Aelod Tîm uniongyrchol. Gellir cynnig hyfforddiant galwedigaethol i aelodau Tîm, gweler **Adran 4.3** am wybodaeth bellach. Gellir datblygu'r safonau yma wrth i Dîm Gwasanaethau Iaith ddatblygu, gan ddefnyddio cyfarwyddyd o'r Cyngor a sefydliadau-partner.
- 2.4.5 Gellir dod o hyd i'r **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol** ar wefan y Cyngor, neu fel copi caled ar gais o'r Uned Bolisi (gweler **1.1.12**) am fanylion cysylltu).

2.5 Y Strategaeth Gymunedol

- 2.5.1 Mae'r **Strategaeth Gymunedol** ar gyfer bwrdeistref sirol Caerffili wedi'i datblygu trwy weithio partneriaeth gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a chymunedau lleol ac mae'n weledigaeth i'r cyngor am y 10-15 mlynedd nesaf. Mae holl bolisiau a chynlluniau eraill y cyngor yn dod dan ei gorchwyl ac mae holl bolisiau a chynlluniau eraill y cyngor yn dylanwadu ar ei datblygiad.
- 2.5.2 Un o 28 amcan y strategaeth drosfwaol hon yw '*codi ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r iaith Gymraeg*' a gofynnir i **bob** partner ystyried sut allant gyfrannu.
- 2.5.3 Mae'n gosod allan sut fydd y sefydliadau-partner yma yn cydweithio dros y 10-15 mlynedd nesaf trwy amlinellu pedair thema neu weledigaeth, sef thema'r *Amgylchedd Byw*, thema *Adfywio*, thema *Addysg Gydol Oes* a thema *Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Byw*.

- 2.5.4 Mae hefyd dwy weledigaeth drawstoriadol, sef Cynladwyedd a Chydraddoldeb, ac fel rhan o'r weledigaeth olaf, mae'r **Strategaeth Gymunedol** yn datgan "*Gellir cael mynediad i bob gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a ieithoedd eraill ar gais*", gan gysylltu'r Strategaeth yn eglur â'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol.
- 2.5.5 Gellir dod o hyd i'r **Strategaeth Gymunedol** lawn ynghyd â'i holl atodiadau ar wefan y Cyngor, neu fel copi caled ar gais oddi wrth CMGG, Swyddfeydd y Cyngor, Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7WF.

2.6 E-Lywodraeth

- 2.6.1 Bydd cynllunio a phrynu meddalwedd cyfrifiadurol a systemau gweithredu yn cymryd yr angen i gynhyrchu defnyddiau dwyieithog i ystyriaeth. Lle nas gellir addasu systemau cyfrifiadurol presennol i gwrdd â gofynion y cynllun, diwellir yr angen ar sail adnewyddu a phrynu o'r newydd. Gwneir hyn yn eglur yn y manylebion ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol newydd neu amnewid.
- 2.6.2 Bydd unrhyw wefan allanol a grëir ac a gynhelir gan y Cyngor, naill yn uniongyrchol neu drwy drydydd person, yn gwbl ddwyieithog. Lle na chyflawnir hyn o'r cychwyn cyntaf, bwyrdir y gwaith i mewn i raglen graddol gyflwyno o gyfieithu a chynnal tudalennau gwefan a nodir dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith.
- 2.6.3 Mae'r cyngor yn cyhoeddi pob cofnodion ar y wefan. Yn ystod cwrs y Cynllun, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r holl ddogfennau Cymraeg (a restrwyd yn flaenorol **dan Adran 1.4.2**) ar ei wefan, ynghyd ag unrhyw rai y gofynnir amdanynt ar unrhyw dopig arall. (Gweler **Adran 4.2 – Polisi Golygyddol** am ganllawiau).
- 2.6.4 Bydd rhwydwaith mewnol y Cyngor yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, er nad yw hyn yn rhwystro ychwanegu tudalennau Cymraeg. Fodd bynnag, bydd y rhwydwaith mewnol yn parhau i gario gwybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle, canllawiau cyfieithu ayb.
- 2.6.5 Gosodir ffontiau Cymraeg ar PCs newydd yn ôl yr arfer ac mae cyfarwyddyd ynglŷn â'u defnyddio ar gael ar y rhwydwaith mewnol. Rhoddir cymorth i staff perthnasol a'r Tîm Gwasanaethau Iaith (gweler **Adran 2.4**) i ganiatáu i unrhyw feddalwedd arbenigol gael ei osod ar eu PCs, yn sgîl ymgynghori â Gwasanaethau TG.
- 2.6.6 Mae Microsoft wedi datblygu fersiwn Cymraeg o Windows XP ac Office y gall siaradwyr a dygwyr y Gymraeg eu defnyddio. Profir y system gan y Tîm Iaith Gymraeg yn yr Uned Bolisi mewn cysylltiad â gwasanaethau TG y Cyngor, gyda golwg ar ei ddarparu i staff, ysgolion Cymraeg a llyfrgelloedd cyhyd â bod digon o gymorth TG ar gael yn Gymraeg i alluogi staff a'r cyhoedd i ddefnyddio'r fersiwn Cymraeg i'w lawn potensial.
- 2.6.7 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi Strategaeth ar gyfer Technoleg Gwybodaeth, a fydd yn un o'r strategaethau cenedlaethol a ddefnyddir gan y Cyngor wrth ddatblygu prosiectau e-Lywodraeth a chynlluniau gweithredu.

2.7 Rhyddid Gwybodaeth

- 2.7.1 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gwarantu i aelodau'r cyhoedd yr hawl i wybodaeth oddi wrth gyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol ynglŷn â'r modd y maent yn cynnal eu pethau, y modd y maent yn gwneud penderfyniadau a'r wybodaeth y gwnaethant ei ddefnyddio er mwyn cyrraedd y penderfyniadau hynny.
- 2.7.2 Mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu bob yn dipyn. Unwaith y bydd darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eu lle yn llawn o 2005, bydd gan aelodau'r cyhoedd hawl cyfreithiol i wneud ceisiadau unigol am wybodaeth ynglŷn â gweithrediad y Cyngor a phenderfyniadau a wneir.
- 2.7.3 A derbyn bod mwyafrif llethol y wybodaeth a gedwir yn fewnol gan y Cyngor y gall aelod o'r cyhoedd ofyn amdano, yn Saesneg, bwriedir i unrhyw lythyron eglurhaol ar gyfer darparu gwybodaeth gael eu gwneud yn iaith y cais gwreiddiol (yn unol â pholisí'r cyngor ynglŷn ag ateb i ohebiaeth), ond am y flwyddyn gyntaf o leiaf, darperir copïau o unrhyw wybodaeth a ddarperir yn sgîl unrhyw geisiadau yn yr iaith y'i cedwir yn wreiddiol gan y Cyngor.
- 2.7.4 Wedi blwyddyn gyntaf y cynllun dywigiedig hwn, cynhelir adolygiad er mwyn dadansoddi'r ceisiadau a dderbyniwyd yn Gymraeg. Gwneir unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â chyfieithu'r wybodaeth a ddarperir dim ond ar ôl yr adolygiad hwn.
- 2.7.5 Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yn y **Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth**, sydd ar gael o wefan y Cyngor, neu fel copi caled ar gais.

2.8 Safonau Ansawdd

- 2.8.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu safon o'r un ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae wedi datblygu mecanweithiau ar gyfer monitro safonau gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, gan gynnwys y gwasanaeth cyfieithu a'r rhaglen hyfforddi. Bydd yn sicrhau fod staff yn gwbl ymwybodol o'u goblygiadau trwy ddarparu canllawiau a'r cymorth a'r hyfforddiant angenrheidiol; Bydd hyn yn neilltuol o berthnasol wrth ddelio â chwynion.
- 2.8.2 Delir â chwynion oddi wrth y cyhoedd yn unol â gweithdrefn gwynion gorfforaethol, sy'n datgan y danfonir ateb o fewn 4 diwrnod gwaith a danfonir ateb llawn o fewn 28 diwrnod gwaith (am wybodaeth bellach ynglŷn â chwynion, gweler **Adran 5.6**).
- 2.8.3. Y safon ansawdd ar gyfer cyfieithwyr y Gymraeg yw arholiad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac aelodaeth wedi hynny. Mae'r cyngor wedi ymrwymo eisoes i gyflawni'r safon hon trwy sicrhau fod ei gyfieithwyr ei hun naill yn aelodau eisoes, neu, cytuno sefyll yr arholiadau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.
- 2.8.4 Ymgwymerir ag unrhyw waith a wneir ar ran y Cyngor gan gyfieithwyr proffesiynol (unigolion neu gwmnïau) sydd wedi cyflawni safon gyffelyb neu sydd wedi dangos gwaith cyfieithu o safon uchel.
- 2.8.4. Mae safon ansawdd parthed hyfforddiant yn ddeublyg. Trefnir hyfforddiant y Cyngor yn fewnol gan y Cydlynnydd Hyfforddiant Cymraeg a chymhwyster gofynnol o'r swydd hon yw bod gan ddeiliad y swydd radd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc addysgu/hyfforddi perthynol.

- 2.8.5. Darperir yr amrywiol diwtoriaid gan Goleg Gwent fel rhan o'r rhaglen hyfforddi a gytunwyd rhwng y Cyngor a'r Coleg. Fe'u hasesir hwy felly dan weithdrefnau asesu y coleg ei hun.
- 2.8.6 Strwythur presennol y tîm Cymraeg oddi mewn i'r Uned Bolisi yw bod y Swyddog Polisi (Cymraeg) yn delio â materion polisi ac yn goruchwylio gwaith hyfforddi a chyfieithu. Er mwyn sicrhau bod y swydd hon yn cwrdd â'r safon angenrheidiol, y gofyniad ar hyn o bryd yw bod deiliad y swydd wedi'i gymhwyso hyd at lefel gradd mewn pwnc perthnasol (Cymraeg, llywodraeth leol/rheoli cyhoeddus, cydraddoldeb neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r swydd e.e. cyfieithu neu addysg oedolion).
- 2.8.7. Dynodir yr holl swydd oddi mewn i'r tîm Cymraeg yn rhai Cymraeg yn hanfodol.

DELIO GYDA SIARADWYR A DYSGWYR Y GYMRAEG

3.1 Cronfa Ddata Siaradwyr a Dysgwyr y Gymraeg

- 3.1.1 Mae gan y Cyngor, mewn partneriaeth â Menter Iaith, gronfa ddata o bersonau a sefydliadau sydd yn well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg a gwneir y wybodaeth hon ar gael i'r holl Gyfadranau ar sail barhaus.
- 3.1.2 Mae defnyddio ffurflenni dwyieithog ayb. yn goresgyn rhai o'r materion trefniadol y mae'r gofyniad hwn yn eu codi. Mae'r gronfa ddata o siaradwyr y Gymraeg yn dal gwybodaeth ar yr aelodau hynny o'r cyhoedd sydd wedi mynegi dewis ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwarchod Data 1998.
- 3.1.3 Mae gan y cyngor a Menter Iaith **Brotoocol Rhannu Data** cytûn parthed y gronfa ddata er mwyn sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan ofynion Gwarchod Data a Rhyddid Gwybodaeth.
- 3.1.4 Dylai unrhyw un yn y cyngor sy'n dymuno defnyddio'r gronfa ddata gysylltu â'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg) i drafod y mater (gweler **1.1.12** am fanylion cysylltu).

3.2 Gofal Cwsmeriaid

- 3.2.1 Mae Gofal Cwsmeriaid wedi dod yn fater pwysig i'r Cyngor a bydd yn agor Canolfannau Gofal Cwsmeriaid mewn trefi ar draws y bwrdeistref sirol, a fydd yn gwpwrdd arddangos i holl agweddau materion sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb iaith.
- 3.2.2 Bydd unrhyw brosiectau y bydd Grŵp Gweithredu Cwsmeriaid yn Gyntaf yn cymryd gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i ystyriaeth.
- 3.2.3 Yn yr un modd, bydd targedau'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cysylltu i mewn â'r targedau gofal cwsmeriaid hynny a nodwyd yn Strategaeth Cwsmeriaid yn Gyntaf a ddatblygir.
- 3.2.4 Bydd unrhyw gyrsiau hyfforddi Gofal Cwsmeriaid yn cynnwys cyfeiriad at faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg fel rhan o wybodaeth gyffredinol Cydraddoldeb.
- 3.2.5 Os yw'r mater Gofal Cwsmeriaid yn cynnwys cwyn, a wnewch chi gyfeirio at **Adran 5.6 – Cwynion** am gyfarwyddyd pellach.

3.3 Gohebiaeth Ysgrifenedig

- 3.3.1 Mae croeso i'r cyhoedd ysgrifennu i'r Cyngor yn Gymraeg neu Saesneg. Cynhwysir y frawddeg "*You are welcome to correspond in English or Welsh / Mae croeso i chi ysgrifennu yn Gymraeg neu Saesneg*" ar bob pennawd llythyr a slipliau cyfarch.
- 3.3.2 Pryd bynnag y derbynnir llythyr yn Gymraeg sy'n galw am ateb, danfonir ateb yn Gymraeg wedi'i arwyddo ynghyd ag unrhyw ffurflenni neu daflenni y gofynnir amdanynt, hefyd yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog. Bydd yr holl lythyron cydnabod, p'un ai ydynt yn cael eu cynhyrchu gan unigolyn neu mewn dull awtomatig, yn dilyn y fformat hyn hefyd.
- 3.3.3 Mae'r targed ar gyfer ymateb i lythyron yn Gymraeg yr un ag yw ar gyfer ymateb i lythyron yn Saesneg, yn unol â dogfen **Nodyn Cyfarwyddo: Ymateb i Ohebiaeth** sydd ar gael ar y rhwydwaith mewnol (dylid danfon cydnabyddiaeth o lythyr neu e-bost o fewn 5 diwrnod gwaith a dylid danfon ateb terfynol o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn).
- 3.3.4 Pan fo'r Cyngor yn cychwyn gohebiaeth â pherson y gwyddys mai Cymraeg yw ei iaith o ddewis, yna bydd yr ohebiaeth hynny yn Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn gymwys lle bo cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb neu alwadau ffôn wedi digwydd yn Gymraeg cyhyd ag y mai hynny yw dymuniad yr aelod o'r cyhoedd.
- 3.3.5 Pan fo'r cyngor yn danfon llythyron allan i'r cyhoedd yn gyffredinol (megis hysbysiadau gwybodaeth, holiaduron ayb) bydd y rhain yn ddwyieithog. Pan gedwir rhestr bostio benodol (h.y. ar ffurf cronfa ddata megis y Panel Safbwynt) a bod dewis iaith neu fformat yr unigolyn wedi'i ganfod, yna danfonir y fersiwn priodol. Lle nad yw'r dewis o iaith wedi'i ganfod hyd yn hyn, rhaid danfon fersiwn dwyieithog, a hynny'n ddiethriad.

3.4 Cyfathrebu sy'n seiliedig ar y We neu Gyfathrebu Electronig arall

- 3.4.1 Yn unol â'r canllawiau yn **Adran 3.3**, atebir i unrhyw bost neu ffurflenni seiliedig-ar-y-We, negeseuon ffacs, negeseuon testun ffonau symudol, fideo-gynadledda, systemau siarad â'r cyhoedd neu gyfathrebu electronig arall yn iaith y neges wreiddiol.
- 3.4.2 Bydd unrhyw ryngwynebau seiliedig ar y we neu electronig â chwsmeriaid, megis gwefannau a phwyntiau gwybodaeth cyffwrdd â sgrîn yn ddwyieithog.
- 3.4.3 Defnyddir y cyfeiriad e-bost Cymraeg cymraeg@caerphilly.gov.uk ym mhob cyhoeddiad ar yr ochr Gymraeg, yn lle cyfeiriadau a ddefnyddir fel arfer yn Saesneg, sef info@caerphilly.gov.uk neu webmaster@caerphilly.gov.uk.
- 3.4.4 Lle bo cyhoeddiadau yn rhoi cyfeiriadau gwefannau penodol yn Saesneg, rhoddir y cysylltiad cyfatebol i'r tudalennau Cymraeg yn y cyfieithiad Cymraeg.

3.5 Cyfathrebiadau dros y Ffôn

- 3.5.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio â'r Cyngor dros y ffôn. Rhoddir y cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf er mwyn dangos gweithredu cadarnhaol. Ar hyn o bryd, nid oes arddull gorfforaethol o ateb y ffôn, fodd bynnag, mae'r Cynllun Iaith Gymraeg a chanllawiau perthynol yn annog staff i ateb yn ddwyieithog ac annog holl aelodau'r brif switsfwrdd i wneud hynny hefyd, ond yn wahanol i rai awdurdodau eraill, ni orfodir hyn ar draws meysydd gwasanaeth.

- 3.5.2 Bydd y cyfarchiad cychwynnol yn ddwyieithog e.e. "Bore da, Good Morning"/ "Prynhawn da, Good Afternoon". Rhoddir hyfforddiant priodol i'r holl staff switsfwrdd ac anogir iddynt ymgyfrannu ymhellach yn rhaglen hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle. Ni orfodir staff i ddysgu'r iaith unrhyw bryd, buasai unrhyw ymrwymiad yn cael ei wneud naill ar sail wirfoddol, neu fel rhan o'u cytundeb cyflogi (gweler **Adran 5.1: Recriwtio a Dethol**).
- 3.5.3 Anogir pob aelod o staff sydd â llinell uniongyrchol i ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog syml. Bydd ffurf a chynnwys y cyfarchiad dwyieithog a ddefnyddir gan ddysgwyr neu'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn dibynnu ar ba mor fedrus maent yn siarad yr iaith.
- 3.5.4 Gan ddatblygu ar yr uchod, bydd unrhyw gyfarchiad corfforaethol a ddatblygir fel rhan o Strategaeth Cwsmer yn Gyntaf yn gwbl ddwyieithog, o'r dyddiad cytûn y mae'r cyfarchiad corfforaethol yn dod i rym.
- 3.5.5 Os yw'r person sy'n galw yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y gweithredydd (neu bwy bynnag sy'n derbyn yr alwad yn cyfeirio'r alwad at aelod o Dîm Gwasanaethau Iaith yn yr adran briodol os ydy hynny'n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, rhoddir y person sy'n galw trwodd i'r Tîm Cymraeg oddi mewn i'r Uned Bolisi.
- 3.5.6 Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael, gwneir trefniadau i aelod o Dîm Gwasanaethau Iaith i gysylltu â'r person sy'n galw cyn gynted â phosibl.
- 3.5.7 Paratwir cyfeiriadur sy'n cynnwys manylion am staff dwyieithog a'r Tîm Gwasanaethau Iaith ac fe'i dosberthir i staff switsfwrdd ac fe'i cyhoeddir ar y Rhwydwaith Mewnol mewn ffurf i'w ddatblygu a'i gytuno fel rhan o weithrediad i **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol**.
- 3.5.8 Bydd pob neges peiriant ateb ffôn yn ddwyieithog; yn achos negeseuon hir neu'r rhai hynny lle newidir y cynnwys yn aml, yna defnyddir neges dwyieithog safonol cytûn. Ymgymerwyd ag arolwg cychwynnol o beiriannau ateb ffôn ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2004 a phellach, bydd monitro yn digwydd ar sail reolaidd.

3.6 Wyneb yn Wyneb â'r Cyhoedd

- 3.6.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod hi'n bwysig cynnig dewis o iaith i'r cyhoedd a bydd yn gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, dros y cownter, cyfarfodydd safle ac yn y cartref. Mae'r cyngor hefyd yn cydnabod y gall peidio gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf osod personau dan anfantais bersonol.
- 3.6.2 Gwneir trefniadau i Swyddogion dwyieithog i fod ar gael i gynorthwyo staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cownter/ardaloedd derbynfa/canolfannau cwsmeriaid. Yn y tymor byr, ni fydd bob amser yn ymarferol bosibl i gael gwasanaeth swyddog dwyieithog ar unwaith. Os felly, rhoddir y dewis i aelodau o'r cyhoedd o siarad â swyddog dwyieithog ar y ffôn, dychwelyd ar ryw amser neu ddyddiad arall pan fydd swyddog dwyieithog ar gael neu drwy gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig. Yn y tymor hir, bydd gweithredu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn sicrhau y bydd yr angen am gael yr opsiynau eraill hyn yn lleihau dros amser.
- 3.6.3 Ar gyfer Cofrestru Genedigaethau neu Farwolaethau ac yn achos Priodasau Sifil a Seremonïau Dinasyddiaeth, mae'r Cyngor yn gallu darparu'r rhain yn Gymraeg mewn ymateb i gais a dylid gofyn am gyfarwyddyd penodol ynglŷn â'r seremonïau yma oddi wrth y Cofrestrydd Arolygol yn Swyddfa'r Cyngor yn Ystrad Fawr.

3.6.4 Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynglŷn â threfnu cyfarfodydd yng nghanllawiau **Trefnu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Cynhwysol**, sydd ar gael ar wefan y Cyngor, neu'r rhwydwaith mewnol neu fel copi caled ar gais.

3.7 Delio â staff sy'n siarad Cymraeg

3.7.1 Er mai prif nod y cynllun yw darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y gall aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg ddymuno derbyn rhai dogfennau mewnol yn Gymraeg.

3.7.2 Cyfieithir a chyhoeddir yn ddwyieithog daflenni mewnol, posteri a gwybodaeth gyffredinol a fydd mewn grym am beth amser, ond rhaid cofio bob amser fod y flaenoriaeth yn dal gyda dogfennau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd. (gweler **Adran 4: Cyhoeddi ac Argraffu** am fanylion pellach).

3.7.3 Delir gyda gohebiaeth a chwynion oddi aelodau staff sy'n siarad Cymraeg oddi mewn i'r un graddfeydd amser â'r rhai hynny a dderbyniwyd yn Saesneg.

3.7.4 Gellir darparu adnoddau Cymraeg megis geiriaduron a meddalwedd i staff mewn ymateb i gais, gyda chytundeb rheolwyr llinell, ac yn achos meddalwedd, Gwasanaethau TG.

4. WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

4.1 Gwybodaeth Gyffredinol

4.1.1 Os ymgwymerir ag unrhyw waith lle bo angen dogfennaeth, **rhaid** gwneud cyfeiriad i'r adran hon yn y Cynllun Iaith Gymraeg a rhaid caniatáu amser cyfieithu a dylunio digonol yn yr amserlen. Mae canllawiau cyfieithu ar gael ar y Rhwydwaith Mewnol neu gellir eu danfon ymlaen fel copi caled ar gais.

4.2 Polisi Golygyddol - Canllaw i'r hyn sy'n gorfod bod yn ddwyieithog.

4.2.1 Lle bo'r Cyngor yn ymwneud ag unrhyw agwedd marchnata, hysbysebu, hyrwyddo neu roi cyhoeddusrwydd i'w swyddogaethau, gwasanaethau neu weithgareddau, bydd yn gwneud hyn yn unol â'r polisi golygyddol a ddangosir yn fanwl yn **Atodiad A**.

4.2.2 Ni fwriedir i'r rhestr yn yr **Atodiad A** fod yn gyflawn nag yn gyfyngedig; ystyrir bod unrhyw eitem, lle nodir hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn eglur ac unrhyw beth a gynhyrchir gan y Cyngor sydd wedi'i anelu at drigolion, busnesau, ymwelwyr neu i'r cyhoedd yn gyffredinol yn dod dan orchwyl y cynllun hwn.

4.2.3 Mae hi'n anochel na fydd yr uchod yn cwmpasu pob math o ddogfen. Dylai staff ddefnyddio eu barn ei hunain wrth asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog trwy gyfeirio at **Atodiad A**, ond os oes unrhyw ansicrwydd, dylid gofyn am gyfarwyddyd oddi wrth y Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg).

4.2.4 **Categori A – cwbl ddwyieithog** – Gall Uned Dylunio Graffeg y cyngor gynorthwyo gyda materion dylunio penodol, ond gan amlaf, y modd safonol o greu dogfennau cwbl ddwyieithog yw cael yr ieithoedd cefn-yng-nghefn mewn dull plygu-a-throi neu

droi-drosodd. Cynhyrchir rhai dogfennau proffil uchel gyda'r ieithoedd ochr-yn-ochr. Dylunnir rhai dogfennu proffil uchel ochr-yn-ochr. Bydd pob poster a gynhyrchir, waeth bynnag y gynulleidfa darged, yn gwbl ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith ar yr un ochr. Fel arfer dylunnir unrhyw eitemau sy'n mynd i mewn i'r wasg, e.e. hysbysiadau a hysbysion, ar ffurf ochr-yn-ochr. Fel arfer, mae cardiau busnes, cydnabod neu alw ar ffurf cefn-yng-nghefn. Mae'n rhaid i bob dogfen ddwyieithog ddatgan y canlynol:-

*Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.
This publication is available in other languages or formats on request.*

- 4.2.5 **Categori B – fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân** – mewn achosion lle bo dogfennau yn swmpus iawn (e.e. lle bo cyfrifiad tudalennau uchel iawn) neu eu bod yn gymhleth (e.e. ffurflenni treth gyngor manwl neu ffurflenni budd-daliadau eraill), caniateir fersiynau ar wahân ond yn sgil trafodaethau gyda'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg). *Nid* oes rhaid cyhoeddi niferoedd cyfartal, ond trefnir argraffiad nifer lleiafysymiol cytûn ychwanegol yn Gymraeg cyn i'r gwaith gael ei gwblhau; ni fydd hwn yn llai na 25% o'r cyfanswm (h.y. os oes 100 yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg, yna cynhyrchir 25 yn ychwaneg yn Gymraeg), ond cyhoeddir niferoedd uwch gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Mae'n rhaid i ddogfennau ar wahân ddatgan eu bod ar gael yn yr iaith arall.

Yr ymadrodd ar gyfer y fersiwn Saesneg yn unig yw:-

This publication is available in Welsh, other languages or formats on request.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Yr ymadrodd ar gyfer y fersiwn Cymraeg yn unig yw:-

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

This publication is available in English, other languages or formats on request.

Gellir newid yr ymadrodd i gyfateb â gofynion y ddogfen neilltuol. Bydd y ddau fersiwn o ansawdd cyfartal a byddant yn dod ar gael ar yr un pryd a chodir yr un tâl amdanynt lle codir unrhyw dâl.

- 4.2.6 **Categori C – Saesneg yn unig** – mae'r categori hwn yn cynnwys dogfennau mewnol yn bennaf, megis adroddiadau, dogfennau drafft a chyfathrebiadau mewnol. Nid yw hyn yn rhwystro'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, nag yn rhwystro unrhyw ddogfennau mewnol rhag cael eu cyfieithu, ond nid oes unrhyw reidrwydd i wneud hyn fel yn achos eitemau Categori A neu B.

- 4.2.7 Fodd bynnag, cyfieithir eitemau Categori C, os derbynnir cais iddynt fod ar gael yn Gymraeg.

4.3 Arwyddion

- 4.3.1 Bydd pob gwybodaeth fewnol neu allanol a arddangosir ar arwyddion mewn ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ac sy'n cael eu codi am y tro cyntaf neu gael eu gosod yn lle arwyddion blaenorol yn ystod gweithdrefnau cynnal a chadw arferol neu wrth wneud gwelliannau, yn ddwyieithog gan gynnwys, ond heb eithrio allanfeydd tân, arwyddion Iechyd a Diogelwch, arwyddion corfforaethol yr adeilad ayb. Bydd maint ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn parchu egwyddor cydraddoldeb.
- 4.3.2 Bydd arwyddion eraill y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt yn ddwyieithog, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:- arwyddion priffyrdd, arwyddion ffyrdd, arwyddion enwau

strydoedd (Gweler **Adran 4.6 – Enwi Strydoedd**), peiriannau maes parcio, rheoliadau croesfannau pelican, arosfannau bysys, parciau ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd. Darperir arwyddion dwyieithog, newydd neu amnewid, naill rhai parhaol neu dros dro, adeg cynnal a chadw a gwelliant.

- 4.3.3 Bydd arwyddion yn gwbl ddwyieithog, mewn fformat gytunwyd gan y cyngor, os na orchmynnir fel arall gan ganllawiau a rheoliadau Llywodraeth Ganolog neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.4 Marchnata, Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

- 4.4.1 Pan gynhelir y gweithgareddau yma gan y Cyngor, neu yn ei enw, bydd y deunydd arddangos ac unrhyw ddefnyddiau wrth gefn gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hysbysebion, posterï, llenyddiaeth gyhoeddusrwydd a thapiau fideo, ynghyd ag unrhyw fecanweithiau ymateb a ddefnyddir, yn gwbl ddwyieithog.
- 4.4.2 Mae'n bosibl y trefnir arddangosfeydd lleol, stondinau gwybodaeth gyhoeddus ac arddangosfeydd o bryd i'w gilydd gan wasanaethau neu asiantau'r Cyngor, ac yn yr achosion hynny, bydd y cyflwyniad yn ddwyieithog.
- 4.4.3 Os bydd y Cyngor yn cynnal ymgyrch hysbysebu, hyrwyddo neu farchnata trwy gyfrwng y wasg, teledu, radio, sinema, posterï, palisau, gwefannau, negeseuon electronig neu systemau uchelseinyddion, gwneir hyn yn ddwyieithog.
- 4.4.4 Bydd y cyngor yn cynhyrchu pob arolwg neu ymchwil marchnad a gynhelir oddi mewn i Gymru mewn fformat dwyieithog. Lle cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, danfonir y ddau fersiwn allan ar yr un pryd, a hynny'n ddieithriad.

4.5 Enwau Lleoedd yn y Bwrdeistref Sirol

- 4.5.1 Mae'r cyngor wedi cynhyrchu rhestr o enwau lleoedd yn y bwrdeistref sirol, ynghyd â rhai nodiadau hanesyddol byr am bob un o'r lleoedd hynny. Mae llawer o enwau lleoedd wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd ac yn aml mae'r rhesymau am fodolaeth yr enwau wedi'u hanghofio. Yn aml, mae enwau lleoedd Cymraeg yn ddisgrifiad daearyddol o'u lleoliad, neu maen nhw'n ymwneud ag eglwys neu ryw adeilad pwysig arall yn yr ardal.
- 4.5.2 Oddi mewn i'r fwrdeistref sirol, gellir rhannu enwau anheddau yn fras yn bedwar "dosbarth" neu "fath" o enwau o ran eu henwau Saesneg a/neu Gymraeg. Mae'r tri math cyntaf yn gymharol syml; mae'r math olaf yn fwy cymhleth:-
- (i) Enw Cymraeg yn unig – mewn achosion megis Ynys-ddu, Llanbradach neu Ystrad Mynach, nid oes fersiynau Saesneg o'r enw lle mewn bodolaeth nac mewn defnydd cyffredin;
 - (ii) Enw Saesneg yn unig – mae'r gwrthwyneb yn wir am Oakdale, Markham neu Crosskeys er enghraifft lle nad oes fersiynau Cymraeg o'r enw lle yn bodoli, neu enw Cymraeg na arferir yn gyffredin;
 - (iii) Enwau Cymraeg a Saesneg – y trydydd grŵp hwn yw aneddiadau lle arferir enwau yn gyffredin yn y ddwy iaith megis y Coed Duon/Blackwood neu Trecelyn/Newbridge;
 - (iv) Mae'r math olaf yn cynnwys yr holl aneddiadau hynny lle nad yw'r "fersiwn" Saesneg yn gyfieithiad fel ag y mae yn (iii) uchod, ond yn hytrach yn sillafiad

llygredig o enw Cymraeg – mae'r rhain yn cynnwys Caerffili/Caerphilly ac Abertyswg/Abertysswg er enghraifft. Mewn llawer o achosion, roedd gwneuthurwyr mapiau cynnar yn ceisio sillafu geiriau Cymraeg trwy ddefnyddio Saesneg ffonetig a gramadeg Saesneg. Y canlyniad yw bod enw o'r math yma i'w gweld ledled Cymru.

- 4.5.3 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, mewn unrhyw achos, yn cyfieithu enw anheddiad, y naill ffordd neu'r llall, lle nad oedd un yn bodoli o'r blaen – buasai hyn ond yn cael ei wneud wedi i ryw ffurf o ymgynghori gael ei gynnal gyda thrigolion yr ardal honno er mwyn caniatáu iddynt benderfynu drostynt eu hunain. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw ymarfer o'r fath wedi digwydd erioed. Mae rhai sefydliadau ac unigolion yn cyfieithu enwau lleoedd a rhestrir rhai o'u syniadau yn y cofnod perthnasol ar y brif restr enwau lleoedd.
- 4.5.4 Y rhestr aneddiadau yw'r un mwyaf diweddar sydd gan y Cyngor ynglŷn ag enwau lleoedd a'u hystyron, ond mae rhai bylchau yn y wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei dal. Os ydym wedi gadael anheddiad allan, neu os daw gwybodaeth bellach ynglŷn â'r enwau lleoedd yma i law, diweddarir y wybodaeth ar sail reolaidd.
- 4.5.5 Mae rhestr gyflym o enwau lleoedd yn nhrefn yr wyddor ar gael ynghyd â rhestr lawnach o gyfieithiadau ac enwau ar gael ar wefan y Cyngor, y rhwydwaith mewnol, neu fel copi caled ar gais.

4.6 Enwi Strydoedd

- 4.6.1 Bydd y Cyngor yn cynhyrchu geiriadur daearyddol strydoedd cwbl ddwyieithog o enwau strydoedd presennol a bydd yn annog datblygwyr a chynllunwyr i ddefnyddio enwau strydoedd dwyieithog ar gyfer Datblygiadau Tai newydd, sy'n adlewyrchu hanes a diwylliant yr ardal. Darperir tystiolaeth helaeth gan Syrfe'r Ordians a Mapiau Degwm o orffennol Cymraeg y bwrdeistref sirol y gellir ei defnyddio mewn modd cadarnhaol er mwyn hyrwyddo'r iaith.
- 4.6.2 Lle'r adeiledir unrhyw ddatblygiad newydd yn y bwrdeistref sirol, gofynnir i'r datblygwr godi plac enw dwyieithog ar gyfer enwau strydoedd newydd, yn unol â'u cyfrifoldeb.
- 4.6.3 Lle bo angen amnewid unrhyw blac enw stryd presennol ar ffyrdd sydd wedi eu mabwysiadu (gan gynnwys trwsio a chynnal ffyrdd a fabwysiadwyd ar ddatblygiadau newydd wedi i'r arwyddion cychwynnol gael eu codi (fel a nodir yn 6.2.2), bydd Gweithrediadau Rhwydwaith yn cysylltu â'r Tîm Enwi a Rhifau Tai, mewn cydweithrediad â'r Swyddog iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau y codir arwydd dwyieithog. Gwneir hyn ar sail rhaglen graddol gyflwyno.
- 4.6.4 Lle gosodir arwyddion enwau strydoedd dwyieithog yn lle'r rhai uniaith presennol, bydd yr enw gwreiddiol presennol flaenaf gyda'r cyfieithiad oddi tano.
- 4.6.5 Unwaith y bydd arwyddion enwau strydoedd wedi'u cyfieithu a'u cofnodi gan Dîm Enwi a Rhifau Tai, danfonir y manylion ymlaen i'r Post Brenhinol a dim ond bryd hynny y byddant yn dod yn gyfeiriadau post a gydnabyddir yn swyddogol.
- 4.6.6 Defnyddir yr un dull o fwrw ati i ddatblygiadau newydd eraill ledled y bwrdeistref sirol e.e. enwau ystâdau tai neu barciau diwydiannol. Lle'r enwir y fath ddatblygiadau ar ôl enwau lleoedd presennol (h.y. tref, pentref, afon, cae neu adeilad ayb), fe'i gwneir yn unol â'r rhestr yn 6.1.2. Lle bo datblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu, bydd y Cyngor yn annog datblygwyr a chynllunwyr i ddefnyddio enwau sy'n adlewyrchu hanes a diwylliant yr ardal fel y gwneir yn 6.2.1 uchod.

- 4.6.7 Cynigir canllawiau, cymorth a chyngor i gwmnïau/sefydliadau perthnasol er mwyn codi ymwybyddiaeth a dilyn y nod hwn.
- 4.6.8 Bydd y Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Adran Gynllunio, Tîm Enwi Strydoedd a Rhifau Tai a Gweithrediadau Rhwydwaith yn cydweithio er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd yn yr adran hon o'r Cynllun Iaith Gymraeg gan bawb sy'n ymwneud â hi trwy set gytûn o weithrediadau bob blwyddyn.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

5.1 Recriwtio a Dethol

- 5.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal ym mhob mater sy'n ymwneud â recriwtio. Wrth recriwtio staff newydd, bydd asesiad o ofynion ieithyddol y swydd.
- 5.1.2 Bydd Cyfarwyddwyr y Cyngor mewn ymgynghoriad â Phennaeth Personél a'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), yn edrych yn fanwl ar anghenion gwasanaeth a chanfod y meysydd blaenoriaeth ar gyfer recriwtio staff dwyieithog i gwrdd â gofynion y cynllun. Wrth wneud hyn, byddant yn ystyried sefyllfaoedd lle bo recriwtio Swyddogion dwyieithog yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth cyn llawned â phosibl. Lle ystyrir bod gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol, nodir hyn mewn hysbysiadau swyddi.
- 5.1.3 Dan amgylchiadau lle mae hi'n profi'n anodd penodi staff dwyieithog addas i swyddi lle'r ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yr arfer fydd naill:
- gwneud penodiad sy'n ag ymrwymiad i ddysgu Cymraeg i safon benodedig ac o fewn amser a nodir a hynny gyda chymorth y Cyngor; neu
 - ad-drefnu'r gwasanaeth neu ganfod trefniadau fel arall i ddarparu'r sgil yn y gweithle trwy e.e. ddefnyddio sgiliau ieithyddol staff presennol yn y maes gwasanaeth penodol yna.
- 5.1.4 Yn achos ymgeiswyr am swyddi lle ystyrir sgiliau Cymraeg yn ddymunol, a bod sefyllfa yn codi lle bo dau ymgeisydd yn gydradd o ran cymwysterau ffurfiol, profiad, ayb., ystyrir lefel gallu mewn sgiliau dwyieithog yn sgil ychwanegol.
- 5.1.5 Lle nas gellir dod o hyd i ymgeiswyr dwyieithog addas ar gyfer swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol, anogir yn weithredol y Swyddog a benodir i gymryd rhan yn Rhaglen Hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle. Gwneir hyn yn eglur ar yr holl hysbysiadau recriwtio.
- 5.1.6 Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd ynglŷn â phryd mae cyfweiliadau Cymraeg neu ddwyieithog yn briodol yn y **Polisi Recriwtio a Dewis – Nodiadau Cyfarwyddo ar gyfer Rheolwyr**.

5.2 Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle

- 5.2.1 Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac mae'n cydnabod pwysigrwydd Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle fel agwedd sylfaenol o ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r pecyn hyfforddi cyfredol wedi bod yn ei le ers mis Medi 2001.
- 5.2.2 Mae'r cyngor yn annog ei holl weithlu a'i aelodau etholedig i ddysgu Cymraeg trwy gynnis pecyn hyblyg o ddsbarthiadau bore, prynhawn a nos, sy'n galluogi rheolwyr a staff i ddewis yr opsiwn gorau ar gyfer ei maes gwasanaeth neilltuol hwy.
- 5.2.3 Goruchwylir y rhaglen hyfforddi gan Gydlynnydd Hyfforddi'r Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth uniongyrchol Coleg Gwent a Chonsortium Cymraeg i Oedolion Gwent, ynghyd â Gwasanaeth Addysg Gymunedol y Cyngor a darpariaeth addysg oedolion arall yn Ne a De-Ddwyrain Cymru.
- 5.2.4 Adolygir darpariaeth hyfforddi yn gyson ac ailasesir blaenoriaethau lle bo'r angen. Monitirir effeithiolrwydd y Rhaglen Hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle, ynghyd â chynnydd y rhai hynny sy'n dysgu'r iaith. Gwneir hyn gan Wasanaethau Personél a Chydlynu Hyfforddi yr Iaith Gymraeg.
- 5.2.5 Cydnabyddir bod y cyflymder y bydd swyddogion ac aelodau yn gallu dysgu Cymraeg yn cael effaith uniongyrchol ar y targedau a roddir ar gyfer gweithredu rhai mesurau yn y cynllun. Gwerthfawrogir hefyd bod sgiliau ieithyddol yn amrywio o Swyddog i Swyddog ac y bydd rhai yn cymryd hirach nag eraill i ddysgu'r iaith.
- 5.2.6 Mae hefyd yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall swyddogion dwyieithog presennol ei wneud trwy gynorthwyo ac annog Dysgwyr y Gymraeg i ymarfer eu Cymraeg yn y sefyllfa waith.

5.3 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 5.3.1. Bydd Prif Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cydlynnydd Hyfforddi'r Iaith Gymraeg a Gwasanaethau Personél yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff dwyieithog yn eu hadrannau.
- 5.3.2 Lle canfyddir angen hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y cynllun, a gellir darparu hyfforddiant addas; fe'i darperir neu ei gynhelir yn unol â gofynion y gwasanaeth.
- 5.3.3 Bydd darpariaeth hyfforddi yn cynnwys cyrsiau mewn sgiliau arbennig, cyrsiau sefydlu mewn rhai arbenigeddau a darparu defnyddiau adnoddau a defnyddiau dysgu o bell lle bo hynny'n briodol. (Buasai esiamplau o arbenigeddau yn cynnwys prosesu geiriau, cyfieithu, cyfryngau, sgiliau yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cofrestrydd).
- 5.3.4 Yn ogystal, cysylltir yr angen am Hyfforddiant Galwedigaethol i weithrediad y **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Corfforaethol**, er mwyn i'r Tîm Gwasanaethau Iaith ac unrhyw staff a benodir i swyddi Cymraeg-yn-hanfodol allu derbyn unrhyw Hyfforddiant Cymraeg penodol sy'n ymwneud â'r swydd honno.

5.4 Trefniadau Gweinyddol

Awdurdod

- 5.4.1 Mae'r cynllun dywigiedig hwn wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol ar 22/11/05 ac mae'n cario ei awdurdod llawn.

Cyfrifoldeb

- 5.4.2 Ymgymerir â gweithrediad beunyddiol busnes yr Awdurdod gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol, dan arweiniad y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a Phennaeth Polisi a Gwasanaethau Canolog.
- 5.4.3 Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir y cynllun hwn trwy wasanaeth y Cyngor drwyddo draw a bydd, trwy'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Pennaeth Polisi a Gwasanaethau Canolog a Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, yn cynghori Cyfarwyddwyr ynglŷn â'r camau sydd eu hangen ar gyfer gweithredu'r cynllun ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth.
- 5.4.4 Bydd gan Gyfarwyddwyr a Phennaethiaid Gwasanaeth gyfrifoldeb felly am weithredu'r cynllun hwn oddi mewn i'w hamrywiol feysydd gwasanaeth.

Cyfarwyddiadau a Chyfarwyddyd

- 5.4.5 Bydd y Cabinet, y Tîm Rheolaeth Gorfforaethol, neu'r rhai hynny â chyfrifoldeb dirprwyedig oddi wrthynt megis Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, ar y cyd â'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), yn cymeradwyo a dosbarthu unrhyw gyfarwyddiadau a chyfarwyddyd newydd i'r holl feysydd gwasanaeth fel bo hynny'n briodol.

5.5 Monitro

- 5.5.1 Mae gan y Swyddog Monitro/Cyfreithiwr Corfforaethol gyfrifoldeb i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu mewn modd cyfreithiol ac nad yw'n gwneud dim a allai achosi camweinyddu, neu anghyfiawnder i unrhyw unigolyn.
- 5.5.2 Mae'r gyfraith yn gwneud y Swyddog Monitro yn gyfrifol am weithrediad Cod Ymarfer Aelodau, Pwyllgor Safonau'r Cyngor, a Chyfansoddiad y Cyngor. Mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithredu fel y Dirprwy Swyddog Monitro.
- 5.5.3 Swyddog Monitro'r Cyngor yw:-

Ian Medlicott, Swyddog Monitro,

Adran y Prif Weithredwr,

Heol Nelson, Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7WF

Rhif Ffôn: 01443 864294

E-bost: medlii@caerphilly.gov.uk

- 5.5.4 Cyflwynir adroddiad ar y cynnydd monitro yn erbyn y targedau yn y Cynllun Iaith Gymraeg, fel y'i gweithredwyd trwy'r Cynlluniau Gwella Gwasanaeth (CGG) (gweler **Adran 2.2**) i Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, gan alluogi aelodau i nodi a gwneud sylwadau ar ddatblygiad y Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau yr eir i'r afael â datblygiadau yn ogystal, yn gadarnhaol neu fel arall, ar lefel aelod ar sail reolaidd.

- 5.5.5 Bydd y CGG blynyddol yn cynnwys targedau gwasanaeth-benodol yn seiliedig ar dargedau yn y Cynllun, a byddant yn cael eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir cynnydd blynyddol, neu y gellir dadansoddi unrhyw broblemau a amlygir gan osod targedau priodol ar gyfer CGG y flwyddyn ganlynol.
- 5.5.6 Yn ogystal â monitro ac adroddiadau mewnol, bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol mewn ffurf a gymeradwyir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n arfarnu cydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun ar draws wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor. Dyma'r weithdrefn adroddiadau ar gyfer cydymffurfiaeth â'r Cynllun yn ystod y cyfnod tair-blynedd y mae'r Cynllun mewn grym.
- 5.5.7 Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:-
- Asesu p'un ai bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r Cynllun parthed perfformiad yn erbyn yr amserlen a osodwyd;
 - Mesur ansawdd y gwasanaethau rheng flaen trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - Mesur a yw rheolaeth / gweinyddiad y Cynllun yn ddigonol;
 - Asesu gwasanaethau a ddarperir ar ran y Cyngor gan drydydd personau;
 - Mesur digonolrwydd ei sgiliau iaith trwy gymharu angen ac adnodd;
 - Dadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn ôl blaenoriaeth neu darged;
 - Dangos enghreifftiau o brif-ffrydio ar waith gan gynnwys:-
 - (i) y camau neu fesurau corfforaethol a gymerwyd gan wasanaethau i hyrwyddo gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - (ii) y camau neu fesurau corfforaethol a gymerwyd gan wasanaethau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned;
 - (iii) y camau neu fesurau corfforaethol a gymerwyd gan wasanaethau i ddangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg.
- 5.5.8 Bydd y Cyngor yn crynhoi ei ganfyddiadau ar ffurf naratif byr (gyda thystiolaeth) i'w gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a bydd yn canfod unrhyw wendidau/risgiau sylfaenol a hefyd yn llunio cynllun gweithredu o fesurau cywirol, ynghyd ag amserlen. Bydd y Cyngor hefyd yn tynnu sylw at gynnydd, arfer da a lefelau cydymffurfiaeth. Lle bo gwendidau, cytunir cynllun gweithredu / datblygu gyda'r Bwrdd.
- 5.5.9 Mae'n bosibl yr ymgwymerir ag arolygiadau thematig yn fewnol, neu'n allanol trwy gyd-arolygiad gan gyrff arolygu a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gofynnir i sefydliadau ddatgan y byddant yn cydymffurfio ag unrhyw arolygiadau yr ymgwymerir â hwy a gweithredu eu hargymhellion lle'u bod yn berthnasol.
- Ymchwiliadau dan Adran 17***
- 5.5.10 Os bydd yn ofynnol i'r Bwrdd wneud Ymchwiliad dan Adran 17 y Ddeddf, bydd y Cyngor yn barod i gydweithredu'n llawn trwy ddarparu gwybodaeth – adroddiadau, dogfennau neu eglurhad – i Fwrdd yr iaith Gymraeg.
- 5.5.11 Bydd y Cyngor yn barod i wneud hyn yn ysgrifenedig ac ar lafar a bydd y Bwrdd yn gallu cael trafodaethau gydag:

- Aelodau etholedig;
- Cyflogedigion yr Awdurdod Lleol;
- Darparwyr gwasanaeth dan gytundeb a'u cyflogedigion;
- Unrhyw unigolyn sy'n cynorthwyo'r Cyngor wrth gyflwyno ei wasanaethau.

5.6 Cwynion

5.6.1 Gellir diffinio cwyn fel sefyllfa lle nad yw aelod o'r cyhoedd, neu grŵp yn fodlon ag ansawdd gwasanaeth, neu weithredu, neu ddiffyg gweithredu gan y cyngor neu aelod o staff. Yng nghyd-destun y Cynllun Iaith Gymraeg, gellir diffinio cwynion ymhellach mewn dwy ffordd:-

- i) Cwynion yn Gymraeg sy'n ymwneud â maes gwasanaeth penodol;
- ii) Cwynion yn y naill iaith neu'r llall ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg.

5.6.2 Dylid nodi *nad* ystyrir y canlynol yn gwynion dan y diffiniad yn **5.6.1**:-

- i) Cais cyntaf am weithredu neu wasanaeth;
- ii) Cais cyntaf am wybodaeth neu eglurhad;
- iii) Cwyn sy'n ymwneud â pholisi'r cyngor sy'n deillio o ddeddfwriaeth, sydd wedi'i gymeradwyo gan y cyngor ac felly nas gellir ei newid neu ei ddatrys trwy weithred swyddog na maes gwasanaeth, dim ond trwy newid polisi neu ddeddfwriaeth.

5.6.3 Parthed y diffiniad cyntaf dan **5.6.1**, rhaid i'r Swyddog Cwynion o'r maes gwasanaeth perthnasol ddelio â'r fath gwynion, yn yr un modd yn union ag y buasai'n delio a chŵyn yn Saesneg, ond gyda'r angen ychwanegol am gyfieithu'r holl ohebiaeth ar y mater a ddaw i mewn neu a ddanfonir allan, yn unol â'r Polisi Golygyddol (gweler **Atodiad A**).

5.6.4 Parthed yr ail ddiffiniad dan **5.6.1**, dylid cyfeirio unrhyw gwynion ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg ei hun at Swyddog Cwynion y Prif Weithredwr, fel y'u rhestrwyd yn Nhaflen **Sut ydw i'n Gwneud Cwyn**.

5.6.5 Yn y ddau achos, danfonir cydnabyddiaeth o fewn 4 diwrnod gwaith a lle bo hynny'n bosibl eglurhad llawn o fewn 28 diwrnod gwaith. Os nad yw eglurhad llawn yn bosibl, dywedir wrth y person neu'r grŵp sy'n gwneud y cwyn pam nad yw'n bosibl a pha gamau sy'n cael eu cymryd i ddelio â'r gwyn.

5.6.6 Fel rhan o fonitro a chyflwyno adroddiadau ar y Cynllun Iaith Gymraeg, nodir unrhyw gwynion ynglŷn â gweithrediad y cynllun (h.y. dan yr ail ddiffiniad dan 5.6.1) a bydd yr adroddiad yn gwneud argymhellion ynglŷn ag unrhyw beth a wnaed neu'r hyn sydd angen ei wneud at y dyfodol. Bydd yr adroddiad hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion a dderbynnir oddi wrth y cyhoedd.

5.6.7 Yn ogystal â chael ei gyflwyno fel rhan o'r adroddiad llawn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, cyflwynir yr adroddiad cwynion, er gwybodaeth, i Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, a hefyd bydd ar gael i aelodau'r cyhoedd i'w archwilio.

5.6.8 Gellir gwneud cwynion yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu trwy e-bost i gyfeiriad e-bost un-swydd y cyngor, sef: complaints@caerphilly.gov.uk.

5.7 Boddhad

- 5.7.1 Mae'r cyngor eisoes wedi ymgymryd â nifer o arolygon i benderfynu barn y cyhoedd am ei Wasanaeth Iaith Gymraeg a hynny fel awdurdod lleol unigol a hefyd mewn partneriaeth â Grŵp Deddf. Y bwriad yw yr ymgymeryd â'r ddau fath o arolygiad eto yn ystod oes y Cynllun hwn.
- 5.7.2 Gan ddefnyddio'r gronfa ddata a ddelir ar y cyd gan y Cyngor a Menter Iaith Caerffili, gellir ymgymryd ac arolygon boddhad er mwyn darganfod beth mae'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn ei feddwl am y ddarpariaeth bresennol a pha feysydd maent yn meddwl sy'n flaenoriaethau at y dyfodol.
- 5.7.3 Gall y wybodaeth hon fod yn gymorth i gyfarwyddo'r rhaglen waith er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth dwyieithog ymateb i anghenion penodol y gymuned leol. Gellir hefyd ei gweld fel modd o ymgynghori parhaus â pharhaol â'r cyhoedd.
- 5.7.4 Gellir defnyddio gwefan y Cyngor fel modd o benderfynu boddhad. Eisoes, mae ffurflenni ar-lein ar gael i'w cwblhau a'u cyflwyno, ffurflen arolwg cyffredinol a'r ffurflen gwynion y gellir eu danfon i mewn i gyfeiriad e-bost Cymraeg y Cyngor, sef: cymraeg@caerphilly.gov.uk. Ymdrinnir â'r rhain yn yr un modd ag unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig arall (Gweler **3.4 - Cyfathrebu Electronig seiliedig ar y We neu Gyfathrebu electronig arall**).
- 5.7.5 Cyhoeddir arolygon boddhad cyffredinol a ddsberthir gan y Cyngor mewn fformat dwyieithog, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd y dewis ym mha iaith y maent yn mynd i ymateb. Er enghraifft, mae aelodau Panel Safbwynt y Cyngor yn derbyn holiaduron dwyieithog yn rheolaidd, sy'n cynnwys adran ynglŷn â "Boddhad â Gwasanaethau'r Cyngor".

6. Cyhoeddusrwydd

6.1 Hyrwyddo'r Cynllun

- 6.1.1 Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd cynhwysfawr i'w Gynllun Iaith Gymraeg ar sail barhaol. Bydd yn sicrhau fod pobl sy'n delio â'r Cyngor yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys a sut maent yn gallu delio â'r Cyngor yn Gymraeg.
- 6.1.2 Defnyddir y dulliau cyhoeddusrwydd canlynol:
- Hysbysiadau mewn swyddfeydd cyhoeddus, ardaloedd derbynfeydd, ayb.
 - Cyhoeddi taflen sy'n rhoi manylion am ymrwymiad y Cyngor i'r Iaith Gymraeg a gwasanaethau Gymraeg.
 - Datganiadau i'r Wasg.
 - Eitemau ym mhapur newydd y Cyngor a chyhoeddiadau eraill.
 - Cylchredeg gwybodaeth a chyfarwyddyd i gyflogedigion.
 - Dosbarthu copïau o'r cynllun i asiantau a chontractwyr y Cyngor.
 - Dosbarthu copïau o'r cynllun i bobl a sefydliadau eraill sydd â diddordeb ynddo.
 - Gwybodaeth a gyhoeddir yn electronig ar wefan y Cyngor.

6.2 Hyrwyddo Gwasanaethau Dwyieithog

- 6.2.1 Bydd y cyngor hefyd yn hyrwyddo ei wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i'w gyflogedigion a'i asiantau ar sail reolaidd a pharhaus.
- 6.2.2 Bydd yn sicrhau fod pobl sy'n delio â'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg trwy gyfrwng ymgyrchoedd hyrwyddo cyffredinol a phenodol.
- 6.2.3 Defnyddir yr un dulliau cyhoeddusrwydd yn yr achos yma ag a ddefnyddiwyd ar gyfer **6.1.2** uchod a rhoddir cyngor i staff perthnasol.

7. Targedau ac Amserlen

7.1 Gwybodaeth am Dargedau ac Amserlen

- 7.1.1 Bydd y Cyngor yn mesur gweithrediad y cynllun yn erbyn targedau a safonau gosodedig. Rhestrir y targedau penodol sy'n ymwneud â'r cynllun isod yn **7.2** a chynhwysir amserlen gyffredinol yn ogystal yn y cynllun yn **7.3**. Mae'r rhain yn amlinellu'r gweithrediad a gyflawnir dros y cyfnod tair-blynedd.
- 7.1.2 Cytunir targedau blynyddol penodol ar sail lefel-gwasanaeth yng Nghynllun Gwella Gwasanaeth Blynyddol Pob Maes Gwasanaeth (Gweler **2.2.4** yn **Adran 2.2 – Cynlluniau Gwella Gwasanaeth** am wybodaeth bellach ynglŷn â thargedau gwasanaeth-gysylltiedig.
- 7.1.3 Bydd y Prif Weithredwr, trwy'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), yr Uned Rheoli Perfformiad a'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, yn gyfrifol am adolygu gweithrediad y cynllun yn flynyddol, yn ôl yr amserlen a'r targedau.
- 7.1.4 Pan na chyflawnir targedau, cyflwynir eglurhad a'r rhesymau pam, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig i Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 7.1.5 Ar ddiwedd pob cyfnod tair-blynedd, adolygir y cynllun diwygiedig gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r broses ymgynghori cyn gofyn am sêl bendith swyddogol oddi wrthynt cyn cyhoeddi'r cynllun tair-blynedd newydd.
- 7.1.6 Gellir gweld cynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd yn hyn yn yr adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae copiau o'r adroddiadau hyn ar gael oddi wrth y Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg).

7.2 Targedau Penodol

- 7.2.1 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canfod 6 Dangosydd Iaith Gymraeg penodol (**DIG 1-6**) y mae wedi argymhell iddynt gael eu cynnwys ym mhob Cynllun Iaith Awdurdod Lleol.
- 7.2.2 Mae'r tabl isod yn gosod 7 mesur allan a'u cysylltu i'r mesurau hynny sy'n dangos sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn bwriadu eu symud ymlaen yn ystod cyfnod gweithredu'r cynllun hwn, a'u cysylltu yn ôl i'r adran berthnasol yn y Cynllun ei hunan.

Mesur 1 - (DIG 1) Caffael	Dyddiad Targed	Adran
<p>Monitro nifer a % y sampl o drydydd partïon a fonitriwyd sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg yn y meysydd canlynol:-</p> <p>(i) gwasanaethau gofal (ii) gwasanaethau ieuencid a hamdden (iii) darpariaeth cyn-ysgol</p>	<p>Trafodaethau cychwynnol gyda meysydd gwasanaeth perthnasol i'w cwblhau erbyn Mawrth 2006. Monitro i gychwyn yn llawn o 2006/07 ymlaen.</p>	2.3
<p>Cyfrifoldeb: TRhC, Rheolwyr Gwasanaeth, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Gwasanaethau Caffaeliad</p>		

Mesur 2 - (DIG 2) Recriwtio a Dethol	Dyddiad Targed	Adran
<p>Ymgymryd ag ymarfer gyda Rheolwyr Personél a Gwasanaeth er mwyn canfod swyddi ym mhob Maes Gwasanaeth lle buasai sgiliau Cymraeg yn hanfodol.</p>	<p>Ymarfer ym mhob maes gwasanaeth i'w gwblhau erbyn Mawrth 2007 yn dilyn y data a fydd ar gael oddi wrth Archwiliad Staff Sgiliau Ieithyddol yn ystod 2006.</p>	5.1 a Strategaeth Sgiliau Ieithyddol
<p>Cyfrifoldeb: TRhC, Cabinet, Grŵp Strategaeth HR, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Personél, Penaethiaid Gwasanaeth, Undebau Llafur, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cynorthwy-ydd Cydraddoldeb</p>		

Mesur 3 - (DIG 3) E-Lywodraeth	Dyddiad Targed	Adran
Sicrhau bod materion Iaith Gymraeg yn rhan integrol o bob prosiect e-Lywodraeth a datblygu-gwefan h.y. cynyddu canran y gwefannau yn Gymraeg o'r man cychwyn o 32% fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2005 er mwyn sicrhau opsiynau Cymraeg ar yr holl systemau galw, gwasanaethau sgrîn gyffwrdd ayb.	45% o'r wefan newydd ar gael yn Gymraeg erbyn Mawrth 2006, cynnydd lleiafysmiol o 10% y flwyddyn wedi hynny.	2.6 a 4.2
Cyfrifoldeb: TRhC, Cabinet, Grŵp E-Lywodraeth Corfforaethol, TG, Cyfathrebiadau, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)		

Mesur 4 - (DIG 4a) Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle	Dyddiad Targed	Adran
Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel gymhwyster benodol.	Adroddiad Dadansoddol i'w baratoi pobl Gorffennaf/ Awst ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.	5.2
Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cydlynnydd Hyfforddi Cymraeg		

Mesur 5 - (DIG 4b) Hyfforddiant Ymwybyddiaeth	Dyddiad Targed	Adran
Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth.	Adroddiad Dadansoddol i'w baratoi pobl Gorffennaf/ Awst ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.	3.2 a 5.2
Cyfrifoldeb: Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Rheolwr Gofal Cwsmeriaid, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cydlynnydd Hyfforddi Iaith Gymraeg, Personél.		

Mesur 6 - (DIG 5) Gallu Iaith	Dyddiad Targed	Adran
<p>Nifer a % y staff oddi mewn i wasanaethau'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg (heb gynnwys staff ac athrawon ysgol). Cysylltiadau gyda thargedau cyfredol y Strategaeth Sgiliau ieithyddol ac Awdit Sgiliau Ieithyddol Staff.</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ôl adran gwasanaeth • yn ôl graddfa swydd • yn ôl gweithle, swyddfa a chanolfan ac yn y prif swyddfeydd ardal. 	<p>Arolwg cychwynnol o staff erbyn Rhagfyr 2005. System cyflogres newydd er mwyn caniatáu monitro a dadansoddiad o allu ieithyddol (disgwylir 2006). Pob aelod newydd o staff i gwblhau'r ffurflen arolwg (o fis Ionawr 2006). Cyflwynir adroddiad ar sail chwarterol unwaith y bydd data wedi'i fewnbynnu.</p>	<p>2.4</p>
<p>Cyfrifoldeb: Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Strategaeth HR, Personél, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cynorthwy-ydd Cydraddoldeb</p>		

Mesur 7 - (DIG 6) Safonau Gwasanaeth	Dyddiad Targed	Adran
<p>Nifer y cwynion a dderbyniwyd parthed gweithrediad y Cynllun Iaith a'r % yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.</p>	<p>Arfer cyfredol – dadansoddiad i'w ddarparu'n flynyddol i'w gynnwys fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun.</p>	<p>5.6</p>
<p>Cyfrifoldeb: Rheolwr Gofal Cwsmeriaid, Swyddogion Cwynion, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)</p>		

7.3 Datblygiad Cyffredinol a Chynnydd

- 7.3.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan datblygiad cyffredinol a chynnydd y cyngor parthed gweithredu'r cynllun diwygiedig hwn.
- 7.3.2 Bydd Cynlluniau Gwella Gwasanaeth Meysydd Gwasanaeth unigol yn cynnwys mesurau penodol ynglŷn â sut maent yn bwriadu gweithredu'r gofynion hyn (Gweler **Adran 2.2 – Cynlluniau Gwella Gwasanaeth** am fanylion pellach).

Paragraff	Mesur	Dyddiad Targed
1.3.1 - 1.3.8	Nodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Arfer cyfredol sy'n mynd yn ei flaen, monitrir yn fewnol yn flynyddol ac mae'n ffurfio rhan o waith partneriaeth y Cyngor. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, Staff, Sefydliadau Partner
1.4.1 - 1.4.3	Y Broses Ddemocrataidd	Arfer cyfredol, cyhoeddusrwydd ehangach i'w wneud fel rhan o weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg newydd. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC
1.5.1 - 1.5.5	Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg	Arfer cyfredol; cyfeirier i'r Cynllun Addysg Gymraeg sydd ar gael o Gyfadran Addysg a Hamdden. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Cyfarwyddwr Addysg
1.6.1 - 1.6.7	Iaith a Chydraddoldeb	Arfer cyfredol – Mae'r Gymraeg yn ffurfio rhan o waith ehangach Cydraddoldeb y Cyngor dan Safon Gydraddoldeb Llywodraeth Leol yng Nghymru. Cyfrifoldeb: Cabinet, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol
2.1.1 - 2.1.7	Polisiau a Blaengareddau	Cychwynnodd hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb ym mis Medi 2004 ar gyfer rheolwyr ac mae'r Gymraeg yn rhan integrol o'r broses hon. Monitrir y rhestr yn Atodiad B yn flynyddol am gynnydd, gyda tharged o 50% o'r polisiau i'w hasesu yn y lle cyntaf erbyn Hydref 2005. Cyfrifoldeb: Cabinet, Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, Prif Weithredwr, TRhC
2.2.1 - 2.2.5	Cynlluniau Gwella Gwasanaeth	Cynlluniau gwella gwasanaethau newydd ar gyfer 2005/06 i gynnwys adran Gydraddoldeb am y tro cyntaf, a bydd yn cynnwys monitro'r iaith Gymraeg. Cychwynnodd Hyfforddiant a Chyfarwyddyd ar gyfer Rheolwyr ynglŷn ag Asesiadau Effaith ym mis medi 2004. Cyfrifoldeb: TRhC, Rheolwyr Gwasanaethau, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Uned Rheoli Perfformiad

Paragraff	Mesur	Dyddiad Targed
2.3.1 - 2.3.4	Delio gyda Sefydliadau Eraill - Caffael	Arfer cyfredol, Polisi Cydraddoldeb wrth Gaffael wedi'i fabwysiadu 2004. Cylchlythyr cyfarwyddyd dywigiedig i'w gyhoeddi Rhagfyr 2005. Cyfrifoldeb: TRhC, Pennaeth Caffael, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol,
2.3.5 - 2.3.11	Delio gyda Sefydliadau Eraill - Partneriaethau	Arfer cyfredol, cylchlythyr cyfarwyddyd dywigiedig i'w gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2005. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC, Sefydliadau Partner
2.3.12 - 2.3.13	Delio gyda Sefydliadau Eraill – Nawdd a Grantiau	Arfer cyfredol, cylchlythyr cyfarwyddyd dywigiedig i'w gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2005 Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC, Staff Grantiau a Nawdd
2.3.14 - 2.3.16	Delio gyda Sefydliadau Eraill – Swyddogaethau Rheoleiddio.	Arfer cyfredol, cylchlythyr cyfarwyddyd dywigiedig i'w gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2005 Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC, Trwyddedu, Safonau Masnach
2.4.1 - 2.4.5	Tîm Gwasanaethau Iaith.	Yn cael ei datblygu ers cymeradwy'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ar Awst 24ain 2004, i'w gweithredu'n llawn o Ebrill 2005 (gweler ymhellach y targedau yn y Strategaeth am fanylion). Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cynorthwy-ydd CYdraddoldeb, Personél
2.5.1 - 2.5.5	Y Strategaeth Gymunedol	Arfer cyfredol, yn cael ei ddatblygu wrth i'r strategaeth gael ei weithredu yn unol â'r Cynllun a thargedau y Strategaeth Gymunedol ei hun Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC, Staff, Sefydliadau Partner
2.6.1 - 2.6.7	E-Lywodraeth	Arfer cyfredol, fodd bynnag, datblygiad pellach o 2005 ymlaen yn ffurfio rhan o waith Grŵp Corfforaethol E-Lywodraeth a'r Gweithgor Ryngrwyd Gorfforaethol. Cyfrifoldeb: Grŵp Corfforaethol E-Lywodraeth, TG

Paragraff	Mesur	Dyddiad Targed
2.7.1 - 2.7.5	Rhyddid Gwybodaeth	Gwaith paratoadol wedi'i gwblhau yn y Cynllun Cyhoeddiadau, adroddiad i'w baratoi erbyn Rhagfyr 2005 wedi'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Swyddog TRhG
2.8.1 - 2.8.7	Safonau Ansawdd	Arfer Cyfredol yn datblygu wrth i'r strategaeth gael ei weithredu yn unol â'r Cynllun hwn a thargedau'r Strategaeth Gymunedol ei hun. Cyfrifoldeb: Pennaeth Polisi a Gwasanaethau Canolog, Rheolwr Uned Bolisi, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Aelodau'r Tîm Iaith Gymraeg
3.1.1 - 3.1.4	Cronfa Ddata Siaradwyr a Dysgwyr y Gymraeg	Arfer cyfredol – protocol i'w gytuno rhwng y Cyngor a Menter Iaith yn ystod 2005. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Menter Iaith, Swyddog Gwarchod Data, Uned Wybodaeth
3.2.1 - 3.2.5	Gofal Cwsmeriaid	Mae Strategaeth Gofal Cwsmeriaid yn cael ei ddatblygu yn ystod 2005 a fydd yn cymryd gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg i ystyriaeth. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gofal Cwsmeriaid
3.3.1 - 3.3.5	Cyfathrebiadau Ysgrifenedig	Arfer cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen. Cyfrifoldeb: Prif Weithredwr, TRhC, Rheolwr Gofal Cwsmeriaid, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol
3.4.1 - 3.4.4	Cyfathrebu seiliedig-ar-y-We neu ffurf electronig arall	Arfer cyfredol, a ymestynnir i fathau newydd o gyfathrebu wrth iddynt gael eu cyflwyno. Cyfrifoldeb: Grŵp E-Lywodraeth Corfforaethol, TG
3.5.1 - 3.5.8	Cyfathrebu dros y Ffôn	Arfer cyfredol, sy'n cael ei ddatblygu ymhellach ers cymeradwyo'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ar Awst 24ain 2004. Monitro peiriannau ateb ffôn ac atebion i'w ymgymryd ag ef yn flynyddol. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gofal Cwsmeriaid
3.6.1 - 3.6.4	Wyneb-yn-wyneb â'r Cyhoedd	Arfer cyfredol, yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y Canllaw Trefnu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Cynhwysol. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gofal Cwsmeriaid

Paragraff	Mesur	Dyddiad Targed
3.7.1 - 3.7.4	Delio gyda staff sy'n siarad Cymraeg	Arfer cyfredol, sy'n cael ei ddatblygu ymhellach ers cymeradwyo'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ar Awst 24ain 2004. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cynorthwy-ydd Cydraddoldeb, Personél
4.1.1	Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad – Gwybodaeth Gyffredinol	Arfer cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cyfieithwyr y Gymraeg, Pennaeth Cyfathrebiadau.
4.2.1 - 4.2.7	Polisi Golygyddol	Canllaw dywigiedig yn effeithiol o Dachwedd 1af 2005, i'w ddosbarthu a'i osod ar y Rhynggrwyd mewnol erbyn Rhagfyr 2005. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cyfieithwyr y Gymraeg, Pennaeth Cyfathrebiadau.
4.3.1 - 4.3.3	Arwyddion	Arfer cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen ar sail rhaglen graddol gyflwyno. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cyfieithwyr y Gymraeg, Priffyrdd a Pheirianneg
4.4.1 - 4.4.4	Marchnata, Hysbysebu Chyhoeddusrwydd	Arfer cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen ar sail rhaglen graddol gyflwyno. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cyfieithwyr y Gymraeg, Pennaeth Cyfathrebiadau, Staff Marchnata
4.5.1 - 4.5.5	Enwau Lleodedd yn y bwrdeistref Sirol	Arfer cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen ar sail rhaglen graddol gyflwyno.- gwefan a chronfa ddata i'w datblygu o fis Ionawr 2006 ymlaen. Cyfarfod datblygu i'w gynnal erbyn Rhagfyr 2005. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cyfieithwyr y Gymraeg, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (Cynllunio, Priffyrdd ayb)
4.6.1 - 4.6.8	Enwi Strydoedd	Arfer cyfredol, i'w ddatblygu ymhellach wrth i waith ar y Mynegai fynd yn ei flaen. Cyfarfod datblygu i'w gynnal ym mis Rhagfyr 2005. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cyfieithwyr y Gymraeg, Pennaeth Datblygiad Economaidd, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (Cynllunio, Priffyrdd ayb)

Paragraff	Mesur	Dyddiad Targed
5.1.1 - 5.1.6	Recriwtio a Dethol	Arfer cyfredol gyda gwybodaeth wedi'i gynnwys bellach yn y Polisi Recriwtio a Dethol – Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Rheolwyr, ac yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol (gweler eto y targedau yn y Strategaeth am fanylion). Cyfrifoldeb: Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Cynorthwy-ydd Cydraddoldeb, Personél
5.2.1 - 5.2.6	Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle	Arfer cyfredol – strategaeth ddywigiedig yn effeithiol o Fedi'r 1af 2001. Ymgymerir â monitro blynyddol bob haf er mwyn adolygu'r flwyddyn academaidd flaenorol. Cyfrifoldeb: TRhC, Personél, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cydlynnydd Hyfforddi Cymraeg
5.3.1 - 5.3.4	Hyfforddiant Galwedigaethol	O fewn 6 mis i gwblhau'r asesiad y cyfeiriwyd ato yn 5.3.1 Cyfrifoldeb: TRhC, Personél, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Cydlynnydd Hyfforddi Cymraeg
5.4.1 - 5.4.5	Trefniadau Gweinyddol.	Arfer cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC
5.5.1 - 5.5.11	Monitro	Mae monitro yn mynd yn ei flaen, gydag adroddiadau gwasanaeth-benodol, ad-hoc, chwarterol a blynyddol yn cael eu paratoi. Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC, Penaethiaid Gwasanaethau, Swyddog Monitro, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Uned Rheoli Perfformiad, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)
5.6.1 - 5.6.8	Cwynion	Arfer cyfredol sy'n mynd yn ei flaen, mae adrodd blynyddol yn ffurfio rhan o'r adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg bob mis Mai. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gofal Cwsmeriaid
5.7.1 - 5.7.5	Bodddhad	Arfer cyfredol. O leiaf un arolwg bodddhad penodol i'w ymgymryd ag ef bob blwyddyn ariannol. Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Swyddog Ymgynghori

Paragraff	Mesur	Dyddiad Targed
6.1.1 - 6.1.2	Hyrwyddo'r Cynllun	<p>Hyrwyddo'r cynllun newydd i Ebrill 2005 i glymu i mewn gyda hyrwyddo Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a a'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol newydd. Swyddog yr Iaith Gymraeg i ymweld â thimau rheoli Cyfadranau yn ystod 2005/2006.</p> <p>Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)</p>
6.2.1 - 6.2.2	Hyrwyddo Gwasanaethau Dwyieithog	<p>Arfer Cyfredol ac sy'n mynd yn ei flaen, trwy Newslin, y wefan ac unrhyw gyfryngau eraill sydd ar gael. Hyrwyddiad arbrofol o 2 wasanaeth penodol i'w wneud erbyn Mawrth 2006, y canlyniadau i'w dadansoddi a lleiafswm o 4 o'r fath hyrwyddiadau i'w gwneud bob blwyddyn wedi hynny.</p> <p>Cyfrifoldeb: Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg), Rheolwyr Gwasanaeth, Cyfathrebiadau</p>
7.2	Targedau Penodol	<p>Mae monitro yn mynd yn ei flaen, gydag adroddiadau gwasanaeth-benodol, ad-hoc, chwarterol a blynyddol yn cael eu paratoi.</p> <p>Cyfrifoldeb: Penaethiaid Gwasanaethau, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Uned Rheoli Perfformiad, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)</p>
7.3	Datblygiad Cyffredinol a Chynnydd	<p>Mae monitro yn mynd yn ei flaen, gydag adroddiadau gwasanaeth-benodol, ad-hoc, chwarterol a blynyddol yn cael eu paratoi.</p> <p>Cyfrifoldeb: Cabinet, Cyngor, Prif Weithredwr, TRhC, Penaethiaid Gwasanaethau, Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, Uned Rheoli Perfformiad, Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg)</p>

ATODIAD A

POLISI GOLYGYDDOL

Categori A - (gweler 4.2.4)

Cwbl Ddwyeithog

Eitemau

Nodiadau Ychwanegol

Arddangosfeydd	Mae'n bosibl y gall arddangosfeydd gynnwys eitemau o lenyddiaeth nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor ac nad ydynt o bosibl ar gael yn Gymraeg, neu heb eu cyhoeddi'n ddwyieithog eto, neu yn Gymraeg yn unig.
Arwyddion (Adran 4.3)	Arwyddion mewnol ac allanol p'un ai ydynt yn rhai parhaol neu dros dro gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: allanfeydd tân, arwyddion Iechyd a Diogelwch, arwyddion corfforaethol adeiladau, gwybodaeth hysbysrwydd i dwristiaid, arwyddion priffyrdd, arwyddion ffyrdd, arwyddion enwau strydoedd, peiriannau maes parcio, rheolwyr croesfannau pelican, arosfannau bysus, arwyddion parciau a gwybodaeth gyhoeddus.
Bathodynau Adnabod	
Cardiau Busnes	
Cardiau Cydnabod	
Cardiau Galw	
Crynodebau Gweithredol	
Defnydd Cyhoeddusrwydd	
Brandio Prosiectau a Blaengareddau'r Cyngor	
Ffurflenni ar gyfer y Cyhoedd	Dwyieithog, os na fuasai fersiynau ar wahân yn fwy ymarferol oherwydd eu cymhlethdod.
Ffurflenni Cais am Swyddi	
Gohebiaeth gyffredinol gydag unigolion neu grwpiau a restrir ar gronfa ddata	Bydd yr ohebiaeth yn gwbl ddwyieithog ond cynhyrchir fersiynau ar wahân <i>dim ond</i> lle bo dewis iaith y rhai hynny ar y gronfa ddata wedi'i nodi.
Gwahoddiadau	
Gwefannau a thudalennau gwe	Mae'n rhaid i bob tudalen Saesneg gael tudalen Gymraeg gyfatebol, ynghyd â botwm llywio iaith, a bydd hefyd yn cynnwys unrhyw ddogfennaeth y gellir ei lawr lwytho, ffurflenni atborthi ayb.
Gwybodaeth mewnol y cyngor, arolygon a holiaduron	Os yw'r fath wybodaeth yn cael ei danfon allan fel taflen a fydd mewn bodolaeth am beth amser, neu ei bod yn arolwg byr, bydd y rhain yn ddwyieithog. Cysylltwch â'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg) am gyngor pellach ynglŷn â'r mater hwn.
Hawlebau	

Categori A – parhad	
Cwbl Ddwyeithog	
Eitemau	Nodiadau Ychwanegol
Holiaduron	Caniateir fersiynau iaith sengl os yw'r holiadur wedi'i anelu at unigolion neu grwpiau y gwyddys eu dewis o iaith.
Hunaniaeth Gorfforaethol y Cyngor	Mae hyn yn cynnwys ei enw, cyfeiriad, logo, arwyddair, hunaniaeth weledol (e.e. arwyddion, brandio), gwybodaeth adrannol safonol. Rhaid i'r ddwy iaith fod yn gyfartal o ran maint ac amlygrwydd.
Hysbysebion Swyddi	
Hysbysebion	
Hysbysiadau Cyhoeddus	
Hysbysiadau Rhybudd	
Hysbysiadau y Wasg	
Llyfrynau	
Llythyrau Safonol i'r Cyhoedd	Yn gwbl ddwyieithog lle nas gwyddys dewis iaith y derbynnydd.
Mapiau	
Marciau ac Arwyddion ar Gerbydau	Arfer safonol yw Saesneg ar un ochr y cerbyd, Cymraeg ar y llall, ond gellir newid hyn, gan ddibynnu ar y dyluniad.
Pamffledi	
Pasiau	
Penawdau Llythyrau	
Posterï (Mewnol ac Allanol)	Yn gwbl ddwyieithog gyda'r ddwy iaith ar yr un ochr.
Slipiau Cyfarch	
Sticerï	
Strategaethau / Polisiâu / Cynlluniau	
Taflenni	
Taflenni Hysbysu	
Taflenni Newyddion	
Taflenni Trosglwyddo Ffacs	Mae templed dwyieithog ar gael ar y rhwydwaith mewnol fel esiampl.
Tocynnau	

Categori B - (gweler 4.2.5)
Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Eitemau

Nodiadau Ychwanegol

Ffurflenni ar gyfer y cyhoedd	Cynhyrchir fersiynau ar wahân pan fuasai hyn yn fwy ymarferol oherwydd eu cymhlethdod (gyda lleiafswm o 25% o'r cyfanswm Saesneg h.y. os cynhyrchir 100 yn Saesneg yna rhaid gwneud 25 ychwanegol yn Gymraeg).
-------------------------------	--

<u>Categori B - parhad</u>	
<u>Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân</u>	
<u>Eitemau</u>	<u>Nodiadau Ychwanegol</u>
Gohebiaeth gyffredinol gydag unigolion neu grwpiau a restrir ar gronfa ddata	Cynhyrchir fersiynau ar wahân <i>dim ond</i> lle bo dewis iaith y rhai hynny ar y gronfa ddata wedi'i nodi, ond fel arall bydd yr ohebiaeth yn gwbl ddwyieithog.
Gwybodaeth fewnol y cyngor, arolygon a holiaduron	Lle bo angen i'r fath wybodaeth gael ei chynhyrchu mewn dogfen fawr oherwydd ei chymhlethdod neu ei natur fanwl iawn, darperir y rhain yn Gymraeg fel fersiwn ar wahân (gyda lleiafswm o 25% o'r cyfanswm Saesneg h.y. os cynhyrchir 100 yn Saesneg yna rhaid gwneud 25 ychwanegol yn Gymraeg).
Llenyddiaeth i Ysgolion	Mae hyn y cwmpasu gwybodaeth brintiedig gyffredinol sydd wedi'i hanelu at ysgolion, darperir nifer digonol o gopiau yn Gymraeg ar gyfer anghenion yr ysgolion Cymraeg.
Llythyron i Ysgolion	Lle danfonir llythyron unigol allan, gwyddys cyfrwng iaith yr ysgol ac felly gellir ysgrifennu'r llythyr yn yr iaith briodol.
Papurau pwyllgor ac atodiadau cysylltiedig	Cyfieithir y rhain ond lle bo cyfeiriad penodol i faterion yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg, Addysg Gymraeg neu pan fo cais am gyfieithiad wedi'i wneud.
Pecynnau Ceisio am Swydd	Lle bo ymgeiswyr wedi mynegi dewis o iaith, darperir y wybodaeth (e.e. swydd-ddisgrifiad, telerau ac amodau a phob gwybodaeth Bersonél) yn yr iaith honno.

Categori C - (gweler 4.2.6)**Saesneg yn unig****Eitemau****Nodiadau**

Adroddiadau mewnol	
Cyfrifon	h.y. cofnodion ariannol mewnol, nid hysbysiadau cyhoeddus ayb. Os na ofynnir amdanynt
Cylchlythyron mewnol	Os na derbynnir cais
Dogfennaeth gytundebau	Os na derbynnir cais
Dogfennau ymgynghori a drafftiau gweithiol	Ni chyfieithir y rhain fel arfer oherwydd bydd y fersiwn terfynol yn ddwyieithog a gallai'r cynnwys newid llawer yn sgil y sylwadau a dderbynnir. A derbyn fodd bynnag y bydd yn rhaid i nifer cynyddol o ymgynghoriadau gynnwys siaradwyr y Gymraeg fel rhan o'r ymarfer fodd bynnag, rhaid nodi ar y drafft y bydd y fersiwn terfynol yn ddwyieithog NEU fod penderfyniad yn cael ei wneud i'r ymgynghori gael ei wneud yn ddwyieithog. Cysylltwch â'r Swyddog Polisi (Iaith Gymraeg) am gyngor pellach ynglŷn â'r mater hwn.
Dogfennau cyfarwyddyd mewnol	Os na derbynnir cais
Gwybodaeth hanesyddol/archif	Os na derbynnir cais
Papurau ymchwil	Os na derbynnir cais
Taflenni Cynhadledd a ddarperir gan gyrff neu unigolion eraill	Os na gofynnir amdanynt.

ATODIAD B

POLISIÄU ALLWEDDOL Y CYNGOR

DS – mae'r rhestr hon o bolisiâu yn gywir adeg ei argraffu. Byd y rhestr yn newid yn rheolaidd wrth i bolisiâu newydd gael eu datblygu a'u hychwanegi a bydd hyn hefyd yn newid wrth i waith y cyngor bwrdeistref sirol ar Resymoli Cynlluniau barhau.

Prif Weithredwr	Blaenoriaeth Asesiad Effaith (Uchel, Canolig, Isel)
Cynllun Gwelliant Gwerth Gorau	Uchel
Strategaeth Gymunedol	Uchel
Cynllun Iaith Gymraeg	Uchel
Rhaglen Waith y Cabinet	Uchel
Cytundeb Polisi	Uchel
Polisi Gwrth-Dwyll Budd-dâl Tai a Threth y Cyngor	Uchel
Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal	Uchel
Polisi Cyhuddo	Uchel
Siarter ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned	Uchel
Cynllun Cydraddoldeb Hil	Uchel
Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Uchel
Strategaeth Gaffael	Uchel
Polisi Pwrcasu Cynaliadwy	Canolig
Gorchmynion Sefydlog ar gyfer Contractau	Uchel
Cynlluniau Gwella Gwasanaeth	Uchel
Polisi ar y Defnydd o'r Rhyngwyd	Uchel
Polisi ar Strategaeth Ymgynghori	Uchel
Datganiad E-Lywodraeth	Uchel
Y Cyfansoddiad	Uchel
Strategaeth Gyfathrebu	Uchel
Amcan 1 Partneriaeth-Strategaeth Leol B.S. Caerffili	Canolig
Safonau Derbynfydd a Gwasanaethau Teleffon	Uchel
Cynllun Corfforaethol	Uchel
Penderfyniadau'r Cabinet	Uchel
Strategaeth Gaffael Gwerth Gorau	Uchel
Polisi Cwynion	Uchel
Cynllun Argyfwng	Uchel
- Personél	
Polisi Cam-drin Sylweddau	Uchel
Polisi Cyfle Cyfartal Personél	Uchel
Polisi Milltired	Isel
Polisi Adleoli	Canolig
Gweithdrefn Ddisgyblaethol	Canolig
Gweithdrefn Allu	Canolig
Gweithdrefn Rheoli Presenoldeb	Canolig
Cod Ymddygiad	Canolig
Recriwtio a dewis Gweithdrefn a Chanllawiau	Uchel
Gweithdrefn Gwyn	Canolig
Absenoldeb Rhiant	Uchel
Caniatâd Absenoldeb	Uchel
Polisi Mamolaeth	Uchel

Polisi Mabwysiadu	Uchel
Polisi Tadolaeth	Uchel
Cynllun Absenoldeb Rhiant	Uchel
Polisi Aflonyddwch Rhywiol a Hiliol	Uchel
Polisi a Gweithdrefn Bwlian yn y Gweithle	Uchel
Anabledd – Strategaeth Gyflogaeth	Uchel
Polisi ar Gyflogi Cyn-Droseddwyr	Uchel
Polisi ar AIDS a HIV	Uchel
Polisi Amryfalaeth Oed	Uchel
Polisi a Chanllawiau Gweithio Hyblyg	Uchel
Polisi Tywydd Gerwin	Isel
Rhannu Swydd	Uchel
Strategaeth HR	Uchel
Polisi Sefydlu	Canolig
Cyfweliadau Ymadael	Canolig
Polisi Trais Domestig	Uchel
Polisi Gofalwyr	Uchel
Polisi Hyfforddi a Datblygu	Canolig
Polisi Oriau Gwaith Hyblyg	Canolig
Polisi Iechyd Galwedigaethol	Isel
Telerau ac Amodau Cyflogaeth	Canolig
Polisi Trais yn y Gweithle	Canolig
Polisi Dim Smygu	Uchel
Polisi Tynfa	Uchel
Cydnabod Cytundeb Cyfleusterau Undebau Llafur	Isel
Polisi Cyhuddo	Uchel
<u>I a D</u>	
Polisi Trafod â Dwylo	Uchel
Polisi Imiwneiddio	Canolig
Polisi Syndrom Dirgrynu Dwylo a Breichiau	Uchel
<u>Polisiau Corfforaethol I a D</u>	
Offer Sgrîn Arddangos	Canolig
Polisi Cymorth Cyntaf	Isel
Polisi Diogelwch Corfforaethol	Canolig
Offer Gwarchodol Personol	Canolig
Gweithdrefnau Cyflwyno Adroddiadau am Ddamweiniau	Isel

Addysg a Hamdden	Blaenoriaeth Asesiad Effaith (Uchel, Canolig, Isel)
Cynlluniau Cynnal Ymddygiad (gan gynnwys CCY ar gyfer Presenoldeb yn yr Ysgol ac Allgau, Gwaelodlinellau a Thargedau, Cynllun Gweithredu Blynyddol, Crynodeb Gweithredol)	Uchel
Cynllun Plant a Phobl Ifainc	Uchel
Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar	Uchel
Cynllun Cychwyn Cadarn Caerffili	Canolig
Cynllun Strategol Addysg	Uchel
Cynllun Trefniadaeth Ysgolion	Canolig
Polisi Mynediadau – Dechrau Ysgol	Uchel
Cynllun Datblygu Dysgu Gydol Oes	Uchel
Polisi Cynhwysiant Cymdeithasol Carden Hamdden	Uchel

Dogfen Bolisi ar gyfer Addysg Disgyblion Mwy Galluog	Canolig
Strategaethau Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol ar gyfer Ysgolion	Canolig
Polisi ar Ataliaeth Gorfforol / Rheoli Ymddygiad Heriol	Uchel
Polisi Anghenion Addysgol Arbennig	Uchel
Polisi ar Brydlesi Tir i Gyrff Allanol	Isel
Prydlesi Hamdden i Gyrff Allanol	Isel
Polisi a Chyfarwyddyd ar gyfer y defnydd o Ymyrraeth Gorfforol mewn Ysgolion	Uchel
Cynllun Dechrau Ysgol	Canolig
Cynllun Addysg Gymraeg	Canolig
Canllawiau ynglŷn ag Aflonyddwch Hiliol mewn Ysgolion	Uchel
Cod Ymarfer Drafft (Ysgolion) ynglŷn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd	Uchel
Strategaeth Hygyrchedd	Uchel
Cynllun Gwella Gwasanaeth (4)	Uchel

Yr Amgylchedd	Blaenoriaeth Asesiad Effaith (Uchel, Canolig, Isel)
Cynlluniau Adrannol ar gyfer Gwella Gwasanaeth	Canolig
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth	Canolig
Cynllun Gorfodi (Iechyd a Diogelwch)	Uchel
Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd	Uchel
Polisi Samplu Bwyd	Uchel
Polisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch	Uchel
Polisi Ymchwilio Damweiniau ac Anafiadau	Uchel
Strategaeth Dai Lleol	Uchel
Strategaeth Rheoli Gwastraff	Canolig
Cynllun Gweithredu Ansawdd Awyr Lleol (Strategaeth Ansawdd Awyr)	Isel
Cyflwyno Polisi Gwasanaethau Prydleswyr	Canolig
Strategaeth Arolygu Tir Wedi'i Ddifwyno	Isel
Cynllun Dyrannu Tai Cyngor	Uchel
Strategaeth Diogelwch Cymdeithasol	Uchel
Awdit / Strategaeth Torcyfraith ac Anrhefn	Uchel
Cynllun Cadwraeth Ynni Cartref	Isel
Adroddiadau Tlodi Tanwydd	Isel
Cynllun Gwasanaeth Safonau Masnachu	Canolig
Polisi ar Gyfrifoldebau GIG i Gwrdd â Gofynion Gofal Iechyd Parhaus	Isel
Gweithdrefnau Ansawdd e.e. ISO 9002 – yn cwmpasu rhan fwyaf y gweithgareddau ar draws meysydd gwasanaeth.	Canolig
Codau Ymarfer ynglŷn â pherfformio swyddogaethau.	Canolig
Gweithdrefnau gorfodi e.e. RIPA	Canolig
Cynllun Trafnidiaeth Lleol	Uchel
Cynllun Datblygu Unedol	Uchel
Strategaeth (Polisi) Datblygiad Cynaliadwy	Uchel
Strategaeth Wledig	Uchel
Strategaeth (Polisi) Ynni	Canolig
Cynlluniau Lleol Cwm Rhymni a Dosbarth Islwyn	Isel

Gorchmynion Sefydlog a Rheoliadau Ariannol-Taliadau, Cyllidebau a Monitro	Uchel
Cynllun Teithio	Uchel
Polisi/Gweithdrefnau Gwaredu (Cabinet 16/01/01) – Cynllunio Rheoli Asedau, Adolygu a Gwaredu Eiddo	Canolig
Strategaeth Ystafelloedd ac Adeiladau Swyddfeydd – Rheoli Eiddo a Chyfleusterau (Swyddfeydd Corfforaethol)	Canolig
Polisi ar gyfer Rheoli/Gwaredu Modurdai nad ydynt yn aelodau o HRA (Hydref 2000/Diwygiwyd Tachwedd 2001) Rheoli Eiddo, Modurdai nad ydynt yn aelodau o HRA a Cheisiadau Trydydd Person	Isel
Gorchmynion Sefydlog Cronfeydd Data Tirlyfrau ac Eiddo)	Isel
Rhestr Ddethol, Polisi a gweithdrefnau (Ionawr 2000) – Adolygiadau Ymgynghorwyr /Contractwyr	Canolig
Gorchmynion Sefydlog – Monitro Prosiectau	Isel
Priswyr (13/06/02) Gorchmynion Sefydlog – Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau SA	Isel

Gwasanaethau Cymdeithasol	Blaenoriaeth Asesiad Effaith (Uchel, Canolig, Isel)
Cynllun Gofal Cymdeithasol	Uchel
Cynllun Gwella Gwasanaeth – Adnoddau a Pherfformiad	Uchel
Cynllun Gwella Gwasanaeth – Oedolion	Uchel
Cynllun Gwella Gwasanaeth – Plant	Uchel
Cynlluniau Tîm	Uchel
Gweithdrefnau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol	Uchel
Gweithdrefnau Gwasanaethau Plant	Uchel
Polisi a Gweithdrefnau Asesu a Rheoli Gofal Gwasanaethau Oedolion	Uchel
<u>Cyd-Ddogfennau</u>	
Protocolau PAGP Caerffili	Uchel
Gweithdrefnau Pwyllgor Gwarchod Oedolion Caerffili	Uchel
Cynllun Busnes Gwarchod Plant Ardal Caerffili (PAGP)	Uchel
Pecyn Gofalwyr	Uchel
Cynllun Plant yn Gyntaf 04/05	Uchel
Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Drafft)	Uchel
Cynllun Cynorthwyo Pobl Ifainc	Uchel
Cynllun Cyfiawnder Ieuencid	Uchel

ATODIAD C

SWYDDOGAETHAU RHEOLEIDDIO'R CYNGOR

Ansawdd yr Awyr (Deddf yr Amgylchedd 1995)
Cynllun Gwobrwyo Dewis Iach
Cynllun Gwobrwyo Hylendid Bwyd
Diogelwch Cynnyrch Safonau Masnachu
Gorfodaeth ac Addysg Diogelwch Bwyd
Gorfodaeth ac Addysg Iechyd a Diogelwch
Gorfodi Cynllunio
Gorfodi Gwarchodaeth Amgylcheddol
Gorfodi Tai Preifat
Gorfodi Tai Sector Preifat
Gorfodi Trwyddedu e.e. adloniant heb drwydded
Gorfodi Trwyddedu y/â Petrolewm, Taccis, Tanau Gwyllt a Ffrwydron, Gwenwynau Chybiau
Lletya Anifeiliaid.

Gwerthiannau Oed Cyfyngedig
Hyrwyddo ac Addysg Iechyd
Iechyd Anifeiliaid
Masnachu Teg
Pwysau a Mesurau (Mesureg)
Rheoleiddio a Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (TA)
Rheoleiddio a Thrwyddedu'r Sector Rhentu Preifat
Rheoleiddio oddi mewn i feysydd eraill Tai Sector Preifat
Rheoli Adeiladu
Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
Rheoli Llygredd
Rheoli Sŵn (Deddf Rheoli Llygredd 1974)
Safonau Bwyd
Tir Halogedig (Deddf yr Amgylchedd 1995)
Traffeg ar y Ffordd
Trwyddedu – Awdurdod Cyfrifol ar gyfer Iechyd a Diogelwch
Ymchwilio i mewn i Ddamweiniau